

DRYSAU AGORED ABATY HENDY-GWYN

Cynhaliwyd Digwyddiad Drysau Agored Abaty Hendy-gwyn ar y 24ain a 25ain o fis Medi 2021 lle croesawyd dros 400 o bobl i Abaty Hendy-gwyn gan gynnwys 135 o ddisgyblion Ysgolion Llys Hywel a Dyffryn Taf ar y dydd Gwener.

Gwnaeth y cyhoedd fwynhau arlwy o weithgareddau a stondinau gan gynnwys bendith gan y Fam Christine o Abaty Holy Cross, Hendy-gwyn a fendithiodd y digwyddiad, cyflwyniad ar fapiau Egni gan Mr Ellis Taylor, sesiwn grefftau gan Fenter Gorllewin Sir Gâr, arddangosfa saethyddiaeth ac adloniant gan Gôr Meibion Hendy-gwyn a'r Cylch, a llawer mwy.

Roedd byrddau gwybodaeth wedi arddangos ar draws yr Abaty gyda gwybodaeth am yr hanes ac esboniad o beth sy'n weddill o'r adfeilion erbyn heddiw. Roedd hefyd yn gyfle i ddysgu am y traddodiad Sistersaidd sydd yr un mor amlwg yng nghymuned Hendy-gwyn erbyn heddiw.

Croesawyd stondinau gan Ganolfan Hywel Dda, Menter Gorllewin Sir Gâr, Sir Kerry gydag arfwisg ac arfau a lluo o stondinau gyda nwyddau canoloesol yn ogystal â the hufen bendigedig.

Gwnaeth y cyhoedd fwynhau arddangosfa o waith yng Nghystadleuaeth Celf Oedran Cynradd lle gwelwyd dros 100 o geisiadau o Ysgol Llys Hywel a thu hwnt.

Llongyfarchiadau i'r canlynol am ddod i'r brig:

Cystadleuaeth Cyfnod Sylfaen – Dylunio Tarian: Joseph Brown, Betsi Thomas a Poppy – Ysgol Llys Hywel.

Canmoliaeth Uchel i Finn Hickman, Ysgol Tafarnspeit

Cystadleuaeth CA2 – Dylunio Castell: Hannah Gatillia, Rhydian Batterston a Joshua Williams – Ysgol Llys Hywel.

Diolch yn fawr i bawb a fynychodd, i ysgolion Llys Hywel a Dyffryn Taf am drefnu alldaith i'r digwyddiad ac i bob partner am chwarae rôl i drefnu digwyddiad llewyrchus.



Y CARDI BACH

Golygydd: Rhoswen Llewellyn
01994 448283

Cadeirydd a Dosbarthwr Eurfyl Lewis
01994 419495

Ysgrifenyddes: Beti Wyn James
01994 230966

Trysorydd, Ffotograffydd, Dosbarthwr drwy'r post a Hysbysebion: Roy Llewellyn
01994 448283

Trysorydd y Clwb '200': Rhian White
01994 231338

Cysodwyr: Wyn a Meirwen Evans
01994 448447

Ffotograffydd Cynorthwyol: Mel Jenkins
01994 240411

Cystadleuaeth John Arfon Jones
01994 240536

Cornel y Dysgwyr: Albie Abbott
01239 831641

Tudalen y Plant: Llinos Mair Thomas

Llewyrrch i'm Llwybr:

Cornel Coginio: Winnie James
01239 831754

Cornel Llên: Nansi Evans
01994 448392
Rhoswen Llewellyn
01994 448283

Cornel Garddio: John Davies
01994 240059


Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn **10fed** o bob mis, drwy e-bost os yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin, Cwmfelin Mynach, Hendygywyn-ar-Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan: Gwasg Aeron Cyf.
Aberaeron. 01545 571115

CYMRAG



Colofn Mis Hydref

gan Iola Wyn, San Clêr

Aelwyd wacach

A dyna ni, y cyw melyn olaf wedi gadael y nyth. Ac am y tro cyntaf, ar yr aelwyd ym Mryncaerau, mae Iwan a finne ar ein pen ein hunain! Mae fy mhrofiadau dros yr wythnosau diwethaf yn gyfarwydd i sawl darlennydd, mae'n siŵr. Teimlad rhyfedd yw e. Mae gollwng gafaél yn groes i'r graen, ac eto mae eu gweld yn mwynhau eu hannibyniaeth ac yn ymgartrefu'n rhwydd mewn ardal arall yn gysur mawr.

Rydw i wedi mynd i mewn i'w hystafell wely droeon i wirio a oes gwyrddau gwag yno, neu sanau budur o dan y gwely, neu fin sbwriel llawn i'r ymylon. Rydw i wedi prynu llawer gormod o fwyd yn ystod y siopa wythnosol, ac mae'r bwyd ffresh wedi mynd yn wastraff. A finne ddim yn dacsu parhaol bellach, mae'r cartre' fel pin mewn papur, gan bod gen i ddigonedd o amser i ddwstio a hwfro. Mae'r dillad wedi eu golchi a'u smwddio mewn chwinciad hefyd. Dydw i ddim wedi cael fy neffro am 2 o'r gloch ar foreau Sul, gan fod rhywun wedi anghofio goriad y tŷ am y degfed gwaith. A dydw i ddim yn gorfod poeni fod swm y gitars a'r drymiau yn rhy uchel, a thrigolion pen ucha Pwll-Trap yn gallu ein clywed!

Ydy, mae addasu, a dilyn patrwm bywyd newydd yn dipyn o newid byd. A digalon yw gwylio'r ast ddefaid yn gorwedd yn bwdlyd o hiraethus wrth y lliidiart bob p'nawn yn aros iddyn nhw ddod oddi ar y bws ysgol.

Wedi i mi adael cartre' a mynd i'r brifysgol, byddem yn gorfod ciwio ger y neuadd breswyl i ffonio fy rhieni o'r ciosg. Ac roedd y sgwrs yn ddigon bryslog am fod cynifer yn sefyllian y tu allan. Byddem weithiau yn derbyn llythyr gan fy Mam yn nodi hanesion yr wythnosau a aeth heibio. Erbyn hyn wrth gwrs, mae'r byd wedi newid, a finne'n medru gweld fy meibion bob awr o'r dydd pe baem yn dymuno hynny. Er dwi ddim yn credu y byddai'r bechgyn yn gwerthfawrogi galwadau Facetime mor aml â hynny! Ond mae llawer haws i gyfathrebu bellach, ac mae hynny'n un o fendithion yr oes hon sy'n frith o felltithion.

Felly dyma bennod newydd i deulu'r Preisiaid. Ac mae wedi bod yn amser i fi hel atgofion ac edrych ymlaen at benodau newydd y meibion, wrth iddyn nhw ddilyn eu llwybrau newydd eu hunain. Ond mae'r nyth yn dal yno. Yn Sanclêr mae eu gwreiddiau nhw, ac acenion Sir Gâr sydd ar eu lleferydd. Dyma eu haelwyd, a bydd y drws wastad yn agored ym Mryncaerau, oni bai ei bod hi'n 2 o'r gloch y bore wrth gwrs!

DALIER SYLW

Rhifyn nesaf fydd rhifyn y Nadolig. Nid oes rhifyn i gael yn mis Tachwedd. Rhaid cael y newyddion, lluniau a chyfarfion Nadolig personol (gyda thâl o £5) mewn erbyn DYDD GWENER, Tachwedd 19eg (cyn hynny os yn bosib) a Hysbysebion Busnes erbyn DYDD Llun, Tachwedd 22ain (fan pellaf).

Telerau hysbysebu yn
Y Cardi Bach

	D/G	LLIW
Tudalen llawn (A4)	£60	£100
Hanner Tudalen	£30	£50
Cwarter Tudalen	£15	£25
Sgwar 6cm x 6cm	£5	£10

GOHEBWYR LLEOL

<u>ALMA:</u>	Margaret Evans 01994 230761
<u>BANCYFELIN:</u>	Merle Jones 01267 211300 eleanormerle@icloud.com
<u>BLAENWAUN:</u>	Tegwen James 01994 448223
<u>CAPEL MORIAH</u> (Blaenwaun)	Meinir Eynon 01437 563540 meiniireynon@gmail.com
<u>CEFNYPANT:</u>	Valerie Davies 01994 448475 vdavies55@outlook.com
<u>CLUNDERWEN:</u>	Lynys Davies 01437 563319 mam_dadbox@yahoo.co.uk
<u>CWMBACH:</u>	Jane Evans 01994 448790 teulujames@btinternet.com
<u>CWM MILES:</u>	Meinir Eynon 01437 563540
<u>CWMFELIN</u>	Nansi Evans
<u>MYNACH:</u>	01994 448392
<u>EFAILWEN:</u>	Angharad Booth Taylor 01994 419221 angharad.boothtaylor@btinternet.com
<u>GELLIWEN:</u>	Peter Crowdie 01994 230033 peter.crowdie@btinternet.com
<u>HENDY-GWYN:</u>	Mel Jenkins 01994 240411 j.jenkins736@btinternet.com Y Parch. Guto Llywelyn 01269 851655 gutollywelyn@hotmail.com
<u>HENLLAN -</u> <u>FALLTEG:</u>	Sian Jackson 01994 240981 jacksonfawr@btinternet.com
<u>LOGIN:</u>	Meinir Eynon 01437 563540
<u>LLANBOIDY:</u>	Norah Heseltine 01994 448241 sales@shwldimwl.com
<u>LLANDYSILIO:</u>	Delyth Roblin 07882 639867 delythroblin@outlook.com
<u>LLANGLYDWEN:</u>	Jill Lewis 01994 419495 jill.llest@gmail.com
<u>LLANGYNIN:</u>	Susan Phillips 01994 231066 siwperiw@googlemail.com
<u>MEIDRIM:</u>	Patsy Lewis 01994 230369 talarwen@hotmail.com
<u>PENYBONT:</u>	Una Williams 01994 484372
<u>PWLLTRAP:</u>	Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
<u>RHYDYCEISIAID:</u>	Doreen Adams 01994 240581
<u>RHYDWILYM:</u>	Eilir Davies 01994 419649 eilirtyrhos@btinternet.com
<u>SAN CLER:</u>	Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
<u>TRELECH:</u>	Alyson Harries 01994 484359 alysonharries@btconnect.com

LLEWYRCH I'M LLWYBR*gan y Parch. Huw George*

Mae tymor y Cyrddau Diolchgarwch wedi cyrraedd unwaith eto ac, er ein bod yn cael ein caethiwo, i raddau, gan y feirws, bydd nifer ohonom yn cyfrif ein bendithion ac yn cyflwyno ein diolchgarwch i ffynhonnell ein bendithion.

Mae'r awydd i fod yn ddiolchgar a'r ymdeimlad o ddiolchgarwch yn reddf naturiol i nifer, ac mae dod ynghyd i gyflwyno ein diolchgarwch yn elfen bwysig o'n ffydd.

Sefydlwyd yr Oedfa Ddiolchgarwch Eglwysig Cristnogol ym 1843, gan y Parch Robert Hawker yn Eglwys Morwenstow, Cernyw er ein bod yn ymwybodol o Wyliau a thraddodiadau sydd yn mynd nôl canrifoedd.

Mae Gŵyl Lammars ar y cyntaf o Awst yn hen draddodiad Eglwysig a bu'r paganiaid ym Mhrydain yn 'diolch' am drefn y byd naturiol dros y cenedlaethau.

Datblygodd nifer o draddodiadau o amgylch y cynhaeaf ac mae'r Iddewon wedi bod yn dathlu Sukkot ar hyd y cenedlaethau.

Yng nghrefydd y Rhufeiniaid, bu'r unfed ar ddeg o Hydref yn ddiwrnod arbennig ac yn Ŵyl o ddiolchgarwch.

Yn ystod Gŵyl Meditrinalia, bu'r dilynwyr yn diolch i'r Dduwies, Meditrina, am y gwin newydd. Byddai'r hen win yn cael ei adfywio gan y gwin newydd ac yn cael ei ddefnyddio i godi'r ysbryd a chynnig iechyd gwell. 'Medendo' yw'r gair Lladin am iachâd.

Yn ystod ein 'Diolchgarwch', gadewch inni ddefnyddio'r cyfnod i ddiolch am yr hyn a gafwyd, yr hen win, a chroesawu'r 'gwin newydd' sydd yn cynnig adfywiad ac iachâd.

Cofiw'n i Iesu ddweud,

'Ni fydd pobl chwaith yn tywallt gwin newydd i hen grwyn; os gwnânt, fe rwygir y crwyn, fe gollir y gwin a difethir y crwyn. Ond byddant yn tywallt gwin newydd i grwyn newydd, ac fe gedwir y ddau.' (Mathew 9: 17)

Yn ystod diwrnodau mis Hydref, diolchwn am yr hen win, yr hen draddodiadau a'r hyn a gafwyd gan afael yn y gwin newydd a diolch am gyfle i brofi bywyd newydd ac ysbryd newydd. Mae'r hen grwyn wedi bod o ddefnydd ond ... wel'r gwin newydd yn gofyn am grwyn newydd.

'O Dduw, dyro ynom yr awydd i fod yn ddiolchgar am yr hyn a gafwyd, yr hen win, ac yn ddewr i groesawu a blasu gwin newydd dy Ysbryd. Cymorth ni i barchu'r hen grwyn gan groesawu'r cyfle i arllwys y gwin newydd i grwyn newydd gan gofio, wrth gwrs, mae'r gwin sy'n iachusol ac nid y crwyn. Amen.

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau

Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid

Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

Blodau
Ar gyfer achlysuron arbennig

Meryl James,
Dyffryn Taf,
Pengawse,
Hendygwyn ar Daf.
SA34 ORE.
Ffôn: 01994 240 350
Symudol: 07977 553796
E-bost: meryljames534@btinternet.com

CYSTADLEUAETH gan John Arfon

Annwyl Ffrindiau,

Hyfryd eich cyfarch unwaith eto yn fisol gan obeithio na fydd clo yn dod dros y misoedd nesaf hyn. Bydd yn rhaid inni fod yn ofalus gan wisgo masgiau a pheidio cymysgu'n rhy agos o hyn ymlaen. Gobeithio hefyd y cawn y brechlyn fflw cyn gynted â phosibl ynghyd â phigiad ychwanegol y Covid cyn hir.

Daeth nifer o atebion i law i gystadlaethau Mis Gorffennaf a dyma'r holl atebion.

A(1) Yr ateb yn y blychau llwyd oedd **Cellwair**

1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14
C	E	L	W	A	i	R	D	Ch	S	P	O	H	Rh

15	16	17	18	19	20	21	22	23	24	25	26	27
Y	M	Dd	G	N	Th	F	T	Ff	B	U	L	Ng

Ar Draws

Acennu, Hoffter, Twll, Wedyn, Anllad, Achau, Bythol, Ebol, Priodas, Amser, Addurn, Cymraeg, Suddo, Llafur,

Pair, Nesau, Lwcus, Dydd, Ploryn, Madarch.

I Lawr

Cellwair, Niwl, Uwd, Hanfod, Fflach, Enllibus, Trai, Doleri, Yngan, Ffair, Ofni, Cansen, Rhythu, Urddasol, Ehangder, Rhadlon, Grudd, Rhuthr, Isod, Cam.

A(2) Yn dilyn y llwybr yr atebion oedd: 1. Chwip, 2. Pwyll, 3. Llety, 4. Ynys, 5. Saib, 6. Bran, 7. Naid, 8. Drud, 9. Diog, 10. Garw, 11. Wylo, 12. Oren, 13. Nwyd, 14. Difa, 15. Adeg, 16. Gafr.

Y gair yn y blychau llwyd oedd **DYFRDWY**

B(1) Atebion y Tri yn Un

1. Abertridwr; 2. Bethesda; 3. Bettws Bledrws; 4. Blaenfwynfi; 5. Caerwedros; 6. Capelhendre; 7. Castell Newydd Emlyn; 8. Craigcefnparc; 9. Croesyceiliog; 10. Cwmhiraeth; 11. Dwygyfylchi; 12. Ffostrasol; 13. Llanbrynmair; 14. Penmaenmawr; 15. Ponterwyd; 16. Porthyrhyd; 17. Rhoatyllen; 18. Rhydaman; 19. Talsarnau; 20. Tredegar.

B(2) Yr ateb i'r pôs mathemategol oedd **89**

C(1) Dyma atebion y Chwilrif X

5	4	9	6	2	1	8	3	7	7	4	6	5	8	3	1	2	9
2	1	8	3	4	7	9	6	5	2	5	8	6	1	9	3	4	7
3	7	6	8	5	9	2	4	1	3	9	1	7	4	2	8	6	5
9	8	1	2	7	6	3	5	4	6	3	2	9	7	1	4	5	8
7	5	3	9	1	4	6	2	8	5	1	4	8	2	6	7	9	3
4	6	25	8	8	3	1	7	9	8	7	9	4	3	5	6	1	2
1	9	4	7	6	2	5	8	3	4	6	7	2	9	8	6	3	1
8	2	7	1	3	5	4	9	6	1	2	5	3	6	7	9	8	4
6	2	5	4	9	8	7	1	2	9	8	3	1	5	4	2	7	6
						2	4	8				6	7	9			
						3	6	9				2	5	1			
						1	5	7				3	4	8			
7	2	4	9	6	5	8	3	1	2	6	5	7	9	4	2	5	8
3	5	9	2	8	1	6	7	4	3	8	9	5	1	2	4	3	6
1	8	6	3	7	4	9	2	5	7	1	4	8	3	6	9	1	7
8	4	7	5	1	9	2	6	3	4	5	7	6	9	2	3	8	1
2	3	5	8	4	6	7	1	9	1	8	3	7	4	5	9	6	2
9	6	1	7	2	3	5	4	8	6	2	9	1	8	3	7	4	5
6	1	8	4	9	7	3	5	2	9	7	1	3	6	4	5	2	8
5	7	2	1	3	8	4	9	6	2	6	5	8	7	1	4	3	9
4	9	3	6	5	2	1	8	7	3	4	8	5	2	9	1	7	6

Dyma restr yr enillwyr:

Posau A(1a2)

Cyntaf: Hevina Jones, Eithinduo Uchaf, Meidrim.

Llyfr i'r Ail: Nesta Rees, Penybryn, Pwlltrap.

Posau B(1a2)

Cyntaf: Tegwen James, Penybryn, Blaenwaun.

Llyfr i'r Ail: Phyllis Hughes, Hafan Dawel. Pwlltrap

Posau C(1a2)

Cyntaf: Peter Crowdie, Parc View, San Cler.

Llyfr i'r Ail: Susan Phillips, Gorwelion, Llangynin.

Llongyfarchiadau iddynt i gyd ac hefyd i'r canlynol am gystadlu: Rita James, Eric Hughes, Pwlltrap; John Lewis, Meidrim; Dorothy Williams, Efailwen; Eilyr Thomas, Llandysilio; Jane Evans, Blaenwaun; Olwen Gibbon, Heol Llysonnen a Gwlithyn Jones, Dryslwyn.

GWYDRIADAU DWBL
G.N.E.
 •DOUBLE GLAZING•
 TAI GWYDR
 LANDER A
 FFASIAU UPVC
 GWYDRIADAU EILAIDD
 BLYNDDOEDD
 O BROFIAD
 GWAITH O SAFON
 UCHEL

FFENESTRI DRYSAU

 Gareth Edwards
 Derbyn
 Gerddi'r Ffynnon
 Hendygywn ar Dâf

Ffôn: 01994 240688 Mobile: 07774 788349

AM Y DEWIS GORAU
 GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
 Y Farchnad, Caerfyrddin

Anrhegion Cyfoes Cymraeg
Llyfrau Cymraeg
CD's
Cardiau Cyfarch
a llawer mwy

Ffôn: 01267 235044

 **Fferyllfa Clunderwen**

GWASANAETH DOSBARTHU
 AR GAEL

Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni

Ffôn: 01437 563228
 Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe,
 Clunderwen. SA66 7NP

C(2) Dyma atebion y Chwilrif Mawr

8	5	9	4	6	7	1	12	10	11	3	2
2	1	6	11	10	4	5	3	12	8	7	9
3	10	7	12	8	11	9	2	5	6	4	1
9	11	2	10	3	12	8	6	7	4	1	5
6	7	4	1	2	9	11	5	8	3	12	10
12	3	5	8	7	1	10	4	9	2	11	6
4	8	10	9	11	5	7	1	2	12	6	3
7	12	1	6	9	3	2	10	4	5	8	11
5	2	11	3	4	6	12	8	1	9	10	7
11	9	12	5	1	8	3	7	6	10	2	4
10	6	3	7	12	2	4	9	11	1	5	8
1	4	8	2	5	10	6	11	3	7	9	12

Dyma ddau bôs i'ch difyrru y mis hwn

X				X	
	O				
	O	X			X
			O		
	X		O	X	
X		O			

Dyma atebion y Cwrosw a'r Chwilrif o rifyn yr haf

X	X	O	O	X	O
O	O	X	X	O	X
O	X	O	X	O	X
X	O	X	O	X	O
O	X	O	X	O	X
X	O	X	O	X	O

	4	3	9	1			7	
	1	7					6	
		8	3				9	
	8				1	7		
2				9		8		
		9	4					
					3			5
				5		2	8	3
1				2	6			

1	3	5	4	6	7	2	9	8
8	9	6	1	2	5	4	3	7
4	7	2	9	3	8	1	5	6
2	4	9	8	7	1	3	6	5
5	8	3	6	9	4	7	2	1
7	6	1	2	5	3	8	4	9
3	1	7	5	4	9	6	8	2
6	5	8	3	1	2	9	7	4
9	2	4	7	8	6	5	1	3



CARTREF ODDI CARTREF



Y GARREG LWYD
HEOL SALEM
SANCLER

FFONIWCH
SHEILA BEYNON
Y RHEOLWRAIG
01994 230855

arwyddion
eaglesigns

Y Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion,
Argraffu a Llifrau Cerbydau...

01994 231 749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk

UNED 3/4, PARC TIR OWEN, SAN CLER

WYN HOWELLS
Dandre
Llanboidy


 Paentiwr ac
Addurnwr

Ffôn: 01994 448478

STEVE DANIELL
 Monraker 
Plymiwr
a gwaith cyffredinol
"Handyman"
Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
 
Ffôn: 07837 089648

Dyma gystadlaethau y mis hwn - manion i gadw'r meddwl yn ystwyth
(ac i weld a fuoch yn gwrando yn astud yn eich gwersi Mathemateg)

1. Mae pedair milltir rhwng dau bentref. Mae dyn yn rhedeg hanner y ffordd ac yna'n cerdded yr hanner arall. Os yw'r siwrne yn cymeryd 40 munud, a'i fod yn rhedeg dair gwaith yn gyflymach nag mae'n cerdded, pa mor gyflym mae o'n cerdded?
2. Roedd dyn hufen ia yn gwerthu cornedi sengl am 95c yr un, a rhai dwbl am £1.20 yr un. Yn ystod y prynhawn fe werthodd 88 ohonynt i gyd am gyfanswm o £96.60. Sawl nifer a werthodd o bob un?
3. Ym mlwyddyn 1 yn yr ysgol roedd pum gwaith mwy o ferched na bechgyn. Pe byddai dau fachgen yn llai a thair merch yn fwy, yna fe fyddai chwe gwaith mwy o ferched na bechgyn. Sawl bachgen oedd ym mlwyddyn 1?
4. Mae un rhif yn dri yn llai nag un arall. Os byddai unarddeg gwaith y rhif cyntaf yn naw mwy na wyth gwaith yr ail, beth yw'r ddau rif?
5. Am fod Eirlys wedi troi y teledu ymlaen yn hwyr fe fethodd chwarter rhaglen lolo. Fe drodd Glenys drws nesaf y set ymlaen chwe munud yn gynharach na hi, ac felly fe gollodd hi ond un rhan o chwech o'r rhaglen. Sawl mumud oedd rhaglen lolo yn para y noson honno?
6. Mewn un gwlad mae'n costio 148 c (centime) i yrru tri llythyr dosbarth cyntaf a dau ail-ddosbarth, a 206 c am bedwar llythyr dosbarth cyntaf a thri yr ail. Faint fyddai un dosbarth cyntaf a phedwar ail-ddosbarth yn gostio?
7. Sawl ciwb 6cm x 2cm x 3cm fedr lenwi bocs 16cm x 18cm x 24cm?
8. Mewn etholiad, cafodd Y Blaid chwarter y bleidlais, y Llafur yn cael dwy ran o naw, Ceidwadwyr yn cael tair rhan o saith a'r Rhyddfrydwyr yn cael y 100 oedd yn weddill. Sawl pleidlais gafodd y Blaid?
9. Os oes 292 o linyrau rhwng 57 o gitarau a ffdlau, sawl un o'r offerynnau cerddorol sydd?
10. **Y Bwrdd Dartiau.** Gyda phedair dart bob tro mae eisiau sgorio cyfanswm o 75. Anelwch at y targed a gweithiwch allan sawl nifer o weithiau y gellwch gael y sgôr hyn. Mae'n rhaid ichwi wneud yn siwr bod pob un dart yn glanio ar y targed. Ni ellwch ddefnyddio yr un pedwar rhif wedyn mewn trefn gwahanol e.e. os byddech wedi dewis 25, 25, 25, 0 ni ellwch ddefnyddio 25, 25, 0, 25 fel tro arall.



Cynigir gwobr o £5 i'r cyntaf allan o'r het a llyfr i'r ail am ateb yr holl gwestiynau yn hollol gywir. Anfonwch eich atebion gyda'ch enw, cyfeiriad a'ch rhif ffôn erbyn Ionawr 1af 2022 i John Arfon Jones, Cilhaul, Heol y Gogledd, Hen Dŷ Gwyn ar Daf, SA34 0AX os gwelwch yn dda. Cofiwch fod yn rhaid ichwi fod yn aelod o'r Clwb 200 os am y siawns o ennill un o'r gwobrau. Cofiwch hefyd y dylech wneud yn siwr eich bod wedi ymaelodi os am y siawns o ennill un o'r gwobrau mawr yn y Raffl fis Chwefror nesaf.

Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarlennwyr,

Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iach ac yn ddiogel. Mae'r misoedd yn gwibio heibio a nwyddau'r Nadolig yn ein siopau ers wythnosau bellach. Croeso i'r rheini sydd wedi ymaelodi'n ddiweddar gyda'r Clwb 200. I'r sawl sydd heb ymaelodi hyd yn hyn, beth am wneud yn fuan iawn, i sicrhau fod gennych gyfle i ennill yn y Raffl Fawr ym mis Chwefror? Mae dod yn aelod yn rhwydd - danfonwch siec i fi am £10 gyda'ch enw a chyfeiriad, neu allwch dalu drwy system BACS y banc. Y manylion sydd angen arnoch yw 40-46-27 a 91020765 a'ch enw chi fel 'reference'.

Dyma restr o'r aelodau a wnaeth ymaelodi'n ddiweddar:-

Dafydd a Bobbie Evans, Neuadd Lwyd, Trelech.
Ann Jones, Hafan Deg, Heol yr Orsaf, San Cler.
Eirlys Davies, 11 Maesydderwen, Cwmdwyfran.
Ithel Parri-Roberts, Preseli, 20 Heol y Brenin Edward, Hendygywn.
Jean Parri-Roberts, Preseli, 20 Heol y Brenin Edward, Hendygywn.
Margaret Williams, Cilowen, Login.
Dion Williams, Cilowen, Login.

Llongyfarchiadau i'r canlynol am ennill ym mis Medi:-

296 - Rhian Rees, Trefethin, Hendygywn - £20
120 - Elan Mair Eynon, 11 Cae Rwgan, Aberbanc - £10

Diolch i chi gyd am eich cefnogaeth a chadwch yn ddiogel.

Rhian

CORNEL Y DYSGWYR *Albie Abbot*

Shwt mae pawb, Dyma ddarn o waith i chi i'w wneud y mis hwn. Mae yn ddarn o waith hyfryd W.R.Evans, joiwch. Pob lwc, *Albie*

CWM CARNABWTH (BECA)

Wên i'n mynd fel ffwl, rhyw nosweth
A nhrwed i'n fflat ar i sbardun,
Ar hyd yr Em Ffôr,
Pan weles i'n sidan, giffle in croeshi o mla'n
A miniwod blagardus wedd in 'u brichgau.
Fe weles 'Carnabwth' in cau 'i ddwrne
I fwgwrth wrth fynd o'r golwg
A gweiddi fel dyn cindeirog.
'Rhowch girch i'ch peirianne, bois bach,
A wadwch bant fel infidion,
Ond tinnwch miwn, ambell waith, bois bach,
I glaish i'r hewl am bum munud,
I gofio am Efel Wen.

(Ysgrifennwyd y gerdd hon yn nhafodiaith Sir Benfro)

GEIRFA

blagardus	parablus (chatty)
brichgau	marchogaeth
cindeiriog	cynddeiriog (mad)
claish	ffos (ditch)
dwrne	dyrnau
nosweth	noson
sidan	sydyn
trwed	troed
wên i	ro' ni

Dewiswch y gair neu'r geiriau sy'n cyfateb orau i ystyr gweddill y frawddeg-

- O dan amgylchiadau anodd, roedd y perfformiad yn uniawn
a) buddugol b) arbennig c) gwahanol ch) rhyfedd d) gweddol.
- Rhaid diolch i Mr. Evans am roi'r holl flynyddoedd hyni ni.
a) o farn b) o gyngor b) o gymeriad c) o reolaeth ch) o wasanaeth.
- Nid swydd i rywunyw hon. Mae eisiau person sy'n mynd i dynnu ei bwysau
a) blinedig b) diwyd c) diog ch) llonydd d) ysgafn
- Roedd rhywun wedir pren yn batrymau cymleth
a) crafu b) naddu c) peintio ch) rhwygo d) toddi
- Mae'r twll yn yr iâ wedidrosodd erbyn hyn.
a) caledu b) cloi c) llenwi ch) rhewi d) toddi
- Arhoswchi fi gael meddwl yn iawn !
a) damaid b) enaid c) eiliad ch) gyfnod d) oes
- Mae'r eira a ddisgynnodd yn ystod y nos wedi diflannu i raddau
a) eang b) gwych c) helaeth ch) llydan d) pwysig
- Rhaid bod rhywun wedi bod yny cae heddiw; mae'r tir newydd ei droi
a) aredig b) cynhaefu c) dyrnu ch) medi d) ymladd
- Dwi wedi bod yn darllenyr aelod newydd yn y Senedd ddoe
a) pregeth b) sgwrs c) darlith ch) araith d) siarad
- Does neb yn sicr pryd yn union y dechreuodd yr arferiad o wisgoar Fawrth y cyntaf.
a) bathodyn b) cenhinen c) dillad ch) draig d) telyn

Adrian Llewellyn
Groundworks Cyf



Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith conerid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio

Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

HUW OWEN
CLUDIANT



Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR

☎ 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG
HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)

GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW

Uned B
Heol y Gorrlewin
Hendygywyn ar Daf



Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937

MERCHED Y WAWR

Cangen San Cler

Cynhaliwyd cyfarfod cynta'r tymor ar brynhawn Sadwrn, Medi 11eg yng ngardd Beti-Wyn. Roedd 19 o aelodau yn bresennol a chasglwyd tâl aelodaeth, gwerthwyd dyddiaduron a chardiau Nadolig a dosbarthwyd rhifyn yr Hydref o gylchgrawn Y Wawr.

Yn absenoldeb y llywydd, Eileen, llywyddwyd gan Beti-Wyn. Croesawyd pawb i'r cyfarfod yn enwedig aelod newydd, Jo Heyde o Lundain sydd yn y broses o symud i Ddinbych y Pysgod. Mae Jo wedi bod yn dysgu Cymraeg ers rhyw ddwy flynedd a daeth yn ail yn y gystadleuaeth lenyddol yn yr Ŵyl Haf eleni – tipyn o gamp. Soniwyd am Hazel Charles Evans, llywydd cyntaf y cangen a fu farw dros yr haf.

Llongyfarchwyd Doreen ar ei phenblwydd yn 70 oed a Rita ar ei phenblwydd yn 80 oed. Llongyfarchwyd Annalyn ar ei swydd newydd fel Swyddog Cymunedol gyda Bethlehem Newydd. Eglurodd ychydig am y prosiect gan obeithio y bydd yn medru cyd-weithio tipyn gyda Merched y Wawr a mudiadau eraill wrth ehangu gwaith yr Eglwys i'r gymuned. Dymunwyd yn dda i Eileen, Marian a Delyth sydd yn disgwyl llaw-driniaeth neu yn derbyn triniaeth ar hyn o bryd.

Cynigiodd Annalyn i fod yn is-lywydd gyda Rhian yn is-ysgrifennydd a Margaret yn is-drysorydd.

Oherwydd sefyllfa Covid penderfynwyd cyfarfod ym Mis Tachwedd ac yna yn fisol yn y flwyddyn newydd.

Bydd y cyfarfod nesaf yn yr Hen Ysgol ar Nos Fawrth, Tachwedd 16eg am 7 o'r gloch pan cawn "Ddod i Nabod" a "Nabod y Babi". Mwynhawyd paned a chlonc i gloi'r prynhawn. Diolch i Iona a Doreen am weini'r te.

Cangen Hendygywn

Cinio Dathlu Hanner Can Mlwyddiant

Hir yw pob aros, ond o'r diwedd llwyddwyd i gynnal ein parti penblwydd hir ddisgwyliedig. Ro'n ni fod i'w gael flwyddyn i fis Mehefin diwetha' ond gorfod ei ohirio oherwydd gofid Covid. Felly, ar yr unfed ar hugain o Fedi, ymgasglon ni i gyd yng ngwesty Pant yr Athro, Llansteffan i fwynhau cinio blasus.

Mor braf oedd eistedd yn yr heulwen i wynhau'r olygfa fendigedig yng nghwmni eneidiau hoff cytun, cyn mynd i mewn i fwynhau'r wledd. Hyfryd oedd croesawu cyn aelodau i'n plith, yn enwedig Nelian Richards

oedd wedi dod yr holl ffordd o'r Dre Newy' a Linda Durrell o Griccieth.

Roedd hi'n fraint hefyd i gael rhannu'n dathliad gyda'n Llywydd Cenedlaethol, Jill Lewis a'n Cyfarwyddwraig, Tegwen Morris ac fe gafwyd areithiau hwyliog a phwrpasol iawn ganddynt. Heather Jenkins offrymodd y fendith cyn bwyd.



O dan gysgod dwy falwn fawr aur yn dangos y rhifau 50, torrwyd y gacen penblwydd gan ddwy o'r aelodau gwreiddiol, Jean Parri Roberts a Cerrys Rees. Roedd trefniadau'r gacen yn nwylo Ann James a diolchwyd iddi ac i staff Pant yr Athro gan Margarette.

Derbyniodd pob un oedd yn bresennol anrheg i goffau'r hanner canrif, sef jwg fach wen gyda geiriau'n dynodi'r achlysur. Un o'n haelodau, Thelma Jones, oedd yn gyfrifol am y jwgiau. Cafodd yr aelodau oedd yn methu bod yno bobi jwg hefyd a darn o gacen.

Daeth y prynhawn hyfryd i ben drwy fwynhau Prosecco fel llwnc destyn i'r hanner can mlynedd nesa'!



(Yn absennol o'r llun mae Thelma Jones a Christian Donovan oherwydd eu bod wedi gadael yn gynnar a Mair Mathias, Sheila Bancroft, Elinor Davies a Doreen Adams oedd yn methu bod yn bresennol).

Hoffem fel cangen hefyd longyfarch un o'n haelodau, Doreen Adams ar ddathlu ei phenblwydd yn wythdeg!

Merched y Wawr Hendygywn yn Dathlu'r Hanner Canfed

Ymhell ym Mharc y Bala fe wawriodd bore gwyn,
Fe ledodd y pelydrau fel tan dros bant a bryn.
Cyrhaeddodd un i'n plith ni yn Hendygywn a'r fro
I ddeffro'r merched hawddgar; a daethant yn eu tro.

A law yn llaw cyrhaeddom, pob calon oedd ar dan,
Ein hiaith oedd yn y fantol; ei hachub oedd ein can.
Fe ffurfiwyd cyfeillgarwch, gwnawd ffrindiau hoff cytun
Mor werthfawr oedd ein Mudiad, mor felys, fel hen win.

Bu llawer o areithio, siaradwyr ddaeth yn llu,
Cystadlu a phwyllgora yn llawn o sbort a sbri.
Bu rhai ar deithiau tramor, a thripiâu yma a thraw,
Pob Medi cawd penwythnos – pleserau di-ben-draw.

Fe gofiwn am aelodau a gollwyd ar ein taith,
Mae'r cof amdanynt heddiw yn dyner fel hen graith.
Dros hanner canrif bellach fe gasglon ni yn llon
I ganu can y Mudiad ac angerdd yn ein bron.

Ac ymfalchio wnawn ni wrth gadw'r fflam yn fyw,
Dros dreigl y blynyddoedd, i'r Mudiad bum yn driw.
Ymunwn nawr i ddathlu penblwydd ein cangen lon,
Ymlaen yr awn yn ffyddiog a balchder dan ein bron. *M.H.*

Cornel Llên

DILYN WALDO



Cyfrol fechan wedi ei pharatoi gan Eirwyn George i ddathlu degawd cyntaf Cymdeithas Waldo. Cymdeithas a ffurfiwyd yn 2010 i drefnu gweithgareddau i gofio un o'n beirdd pwysicaf. Crynwr, heddychwyr, a chenedlaetholwr hefyd. Mae yma amrywiaeth o anerchiadau, tywys-deithiau, atgofion, a llawer mwy, gan nifer o'n hawduron blaenllaw. Mae yma werthfawrogiad o farddoniaeth

Waldo, amrywiol eto o ran ffurf a chynnwys; yn ogystal ag ysgrifau dadlennol yn bwrw golwg ar ei fywyd a'i waith. Casgliad o ffotograffau lliw hefyd. Y cyfan, at ei gilydd, yn rhoi inni bortread difyr a chynhwysfawr o un o Gymry mwyaf yr ugeinfed ganrif.

Brodor o odre'r Preseli yw Eirwyn George. Bardd y Goron yn y Genedlaethol ddwywaith, ac awdur nifer o gyfrolau. Mae'n briod â Maureen ac yn byw ym mhentre Maenclochog.

Mae'r llyfr ar werth yn y siopau. **Pris: £7**

HANNAH-JANE gan Lleucu Roberts

Enillodd y llyfr hwn wobwr Goffa Daniel Owen yn Eisteddfod Genedlaethol Amgen 2021.

Hannah Jane yw'r prif gymeriad – menyw mewn oedran sy'n byw ar ei phen ei hun ond wedi colli ei chof ac yn dioddef o 'dementia' ond mae ei thafod fel rasel, fel y gwyr Beth ei chymdogaes yn iawn.

Mae Beth yn ymweld â hi bob dydd.

Mae ganddi ferch, Susan, sy'n byw ymhell ac nid yw'r berthynas rhyngddynt yn rhwydd oherwydd hynny ond mae cymod trwy ei pherthynas a'i hwyres, yr artist Ishi Mai.

Mae llyfr yn son am gymdogion - stori deuluol yw hon a daw niffrer o ddirgelion yng ngorffennol Hannah Jane i'r golwg. Oes yna fwy na salwch y tu ôl i'r cymylau ym meddwl yr hen ddynes hon. Bydd angen darllen y nofel fwy nag unwaith i ddeall y stori yn iawn.

Gwasg y Lolfa. Pris £8.99



PIZZA

Cynhwysion:

4 owns o fflwr • 2 owns o gaws wedi ei ratio
½ llwy de o fwstard • 1 owns o fargarin
¼ llwy de o berlysiau cymysg (mixed herbs) • 1 wy.

Gwnewch does o'r cynhwysion uchod - ei rowlio a rhoi'r crwst ar waelod dysgl neu dun.

Llenwad:

2 domato fawr • 4 owns o gig sosej
2 - 4 owns o ham neu facwn
2 owns o gaws wedi ei ratio • 2 owns o fadarch
1 winwnsin.

Trefnwch y tomatos, bacwn etc. ar y crwst, mewn heiniau yn ôl eich tast. Coginiwch y cyfan am 20 – 30 munud mewn ffwrn 400°F.

Preseli storage cyf.

Containers ar werth neu i'w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159

GORSAF BETROL PRESELI CYF.

Llanddewi Efelffre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd



01834 860227

**R. M. JONES**

CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD

Bridge End House
Clunderwen

Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com



**Detholiad o anrhegion
Cymraeg a Saesneg
o safon**

Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
E-bost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawncariad
www.llawncariad.co.uk

Cornel Garddio *gan W John Davies*

Rwy'n eistedd lawr i geisio ysgrifennu ar yr 8fed o Hydref. Mae'r tywydd yn syndod o fwyn, er bod y gwynt o'r gogledd drwy'r dydd a heb amheuaeth, mae ein hamgylchedd ar yr ochr ddeheuol bob amser llawer twymach nawr, nac oedd saith deg mlynedd nôl. Rwy'n cofio rhew caled ddechrau mis Hydref, ac rwy'n cofio hyn oherwydd mae motor-beic oedd gennyf amser hynny. Mae hefyd bron pedwar deg mlynedd ers pan welais bedair modfedd o eira yn gyson ar y llawr ac rwy'n credu byddde'n dda o beth petai'r awdurdodau yn dechrau sylweddoli fod rhaid ymdopi â'r broblem ar frys. Maent hyd yn oed wedi sylweddoli fod gan erddi bychan ran bwysig i wneud ac mae'n debyg mae da o beth fyddai ond torri hanner y lawnt, a gadel y gweddill, a'i dorri ond unwaith neu ddwy pob blwyddyn. Byddai hyn yn golygu rhyw faint yn llai o lygredd yn yr awyr ac mae'n debyg fod porfa hir sydd yn marw nôl yn help i wella ansawdd y ddaear. Mae gwell pridd yn medru storio mwy o'r carbon gwenwynig hyn a hwn yw'r drwg yn y caws mae'n debyg.

Mae plannu coed hefyd yn help, ac os yw hyn oll yn gywir, cyn hir bydd pawb sydd â gardd yn cael eu hannog i blannu coeden addas ac os felly, dyma un neu ddau awgrym a fydd o gymorth i chi. Dewiswch un a choesyn clir o leiaf chwe throedfedd o hyd, er mwyn gallu cerdded odani mewn amser i ddod. Edrychwch yn fanwl ar y brigau, bydd un ochr yn wanach na'r llall bob tro ac wrth blannu gofawch fod yr ochr wanlyd i'r de, a'r ochr gryfaf i'r gogledd. Gwnewch hyn oherwydd mae'r tyfiant bob amser yn gryfach tua'r haul sydd o hyd i'r ochr ddeheuol, ond peidiwch plannu'r gwreiddiau yn ddwfn oherwydd mae'n bwysig i ddim ond gorchuddio'r gwreiddiau yn ysgafn. Fel hyn bydd cawod ysgafn o law yn yr haf o les i'r gwreiddiau, ond rhaid cofio hefyd bydd rhaid dyfrio unwaith yr wythnos os fydd y tywydd yn sych iawn a hynny am y ddwy flynedd gyntaf.

Canol Medi fe heuais yr hadau olaf o letys y flwyddyn hon ac maent nawr yn barod i'w trawsblannu allan. Gwnaf hyn mewn ffrâm fechan a gwydr trosodd dros y gaeaf. Bydd y rhain yn cael eu plannu yn ofalus a gwnaf fy ngorau i beidio cyffwrdd â'r coesau na'r

gwreiddiau, oherwydd maent yn dyner iawn a hawdd eu niweidio. Fe blannaf y rhain mewn rhestr deg modfedd ar wahân, a tair modfedd rhyngddynt yn y rhestr, yna gallaf dorri bob yn ail i ffwrdd â'u bwyta dros y gaeaf. Gyda'r tywydd mor ddelfrydol mae'n amser da i blannu planhigion bresych y gwanwyn (spring cabbage) allan yn yr ardd.

Mae'r ddaear yn dwym ac fe gydiant yn hawdd a dechrau tyfu yn gryf yn fuan cyn y gaeaf. Cadwch lygaid barud am ambell golomen wyllt, neu bydd hi yn siŵr o ddwyn ei siâr dros dymor y gaeaf. Dechrau Gorffennaf heuais bâm bychan o fetys ac fe eginon yn dda ond yn fuan diflannodd y cwbl i gyd dros nos. Roedd y pâm yn llawn o falwod bychain, llai na hanner modfedd o faint. O ble y daethant ar un waith? Fe gofies wedyn bod ffarmwr caredig wedi dod â dwy sached o ddom i mi a defnyddiais hwn yn y pâm hwn. Mae'n rhaid fod malwoden wedi dodwy ei wyau ynddo dros yr haf ac fe wna i roi gwbod i chi sut i'w gwaredu mis nesaf.

Clwb Telyn y Castell

Beth amdani delynorion ifanc?

Mae aelodau Clwb Telyn y Castell yn falch eu bod wedi gallu ail-ddechrau ymarfer yn Aberteifi ar ôl y cyfnod clo ac yn gwahodd ceisiadau gan delynorion yr ardal i ymuno â nhw unwaith bob pythefnos ar fore Sadwrn yn ystod y tymor ysgol. Dyma gyfle i fod yn rhan o griw o delynorion brwdfrydig sydd yn mwynhau'r cyfle i ddatblygu eu dawn ac yn cael hwyl wrth ganu'r delyn mewn ensemble.

Y bwriad yw rhoi dau gyngerdd pob blwyddyn pryd y mae aelodau'r clwb nid yn unig yn cael y cyfle i berfformio mewn cyngerdd cyhoeddus ond hefyd yn cael y pleser o wrando a dysgu wrth unawdwy'r gwadd. Eisoes rhoddwyd datganiadau gan delynorion gwych o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn ogystal â datganiadau gwefreiddiol ar y delyn deires gan Robyn Huw Bowen.

Ers ei sefydlu yn 2015, mae'r clwb wedi denu telynorion o gryn bellter ac mae'n bleser eu gweld yn mwynhau'r profiad o gyd-chwarae a gwneud ffrindiau newydd ym myd y delyn. Gwahoddir ceisiadau gan delynorion o bob safon. Rydym hefyd yn sicrhau pellter cymdeithasol rhwng pob telynor yn yr ensemble i gadw at argymhellion rheolau Covid.

Am fwy o fanylion cysyllter â Meinir Heulyn:
e-bost - sgwrs@meindirheulyn.com neu
lôn symudol - 07879 437631



COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartedig
Hendygywyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk

CEGINAU CLASUROL
Classic Kitchens
Hendygywyn ar Daf

Ceginau ac Ystafelloedd Gwely wedi eu gwneud i fesur	<i>David a Jackie John</i> Uned 1-3 Stad Ddiwydiannol Hendygywyn ar Daf
---	--

Ffôn: 01994 240176 • Ffacs: 01994 240572



ADNODDAU ADEILADU
Uned 7A, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444

Profiadau Cyfnod Clo Sioned Evans, Pianydd Proffesiynol



O s fu och yn gwyllo rhaglenni Jonathan ar S4C yn ystod misoedd y Gwanwyn, efallai y sylwoch ar y band oedd yn cyfeilio yn ystod y rhaglen. Yn cyfeilio ar y piano oedd Sioned Evans, sydd yn gerddor proffesiynol. Dyma ychydig o'i hanes a'r newid fu'n ei bywyd oherwydd y Cyfnod Clo.

Merch fferm o Fancyllyn, ger Caerfyrddin, yw Sioned a fynychodd ysgol y pentre ac Ysgol Bro Myrddin. O oedran ifanc iawn roedd cerddoriaeth yn rhan fawr o'i bywyd. Ystyriai ei hun yn lwcus i gael y cyfle i berfformio gyda cherddorfeydd Sir Gâr, y Tair Sir, y Chwe Sir ac yna Cerddorfa Genedlaethol Ieuencid Cymru. Roedd wedi elwa o wersi fflwt, telyn a phiano a bod yn ffodus iawn i gael athrawon gwyd. Ei mam, Hilary Evans, sy'n athrawes biano, a daniodd ei diddordeb yn y piano ac roedd yn "obsessed" o'r dechrau. Wedi cyrraedd Gradd 8 cafodd wersi gan yr "anhygoel Gareth Wyn Thomas ac yna Richard McMahon."

Enillodd ysgoloriaeth i astudio y piano yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, ac wedi ennill Gradd Dosbarth 1af BMus, enillodd Ysgoloriaeth Lloyd George i astudio Collaborative Piano ar gwrs ôl-radd. Ystyria'r chwe mlynedd a dreuliodd yn y Coleg Cerdd, a'r profiadau a ddeillia o hynny, yn amhrisiadwy.

Yn ystod ei hamser yn y coleg, ac ers graddio, bu'n gweithio fel cerddor llawrydd gan berfformio mewn cyngherddau, operau, mewn sioeau cerdd ynghyd â bod yn gyfarwyddwraig cerdd mewn nifer o sioeau cerdd. Ac yna fe ddaeth Covid a'r Cyfnod Clo. Fel i nifer o bobl hunan-gyflogedig roedd y cyfnod clo yn anodd. Dros nos, ym Mawrth 2020 collwyd misoedd o waith, ac yn sgil hynny, misoedd o dâl. Fel y dywed Sioned,

"Roedd yn anodd iawn i wybod beth i wneud nesaf ac am ba mor hir i aros i bethau fynd nôl i normal." Ar ôl deufis o aros a sylwi bod pethau yn mynd i gymryd tipyn hirach i ddod nôl i normal, dechreuodd chwilio am swyddi.

Cafodd swydd gyda'r elusen POBL sy'n gweithio gyda'r di-gartref. Lleolwyd ei swydd, swyddog cymorth, yn Llanelli, mewn llety cymorth 24 awr i bobl ifanc digartref a bregus. Roedd yr hostel yn darparu llety i pobl ifanc di-gartref oedd yn brofiad hollol newydd i Sioned, ac yn agoriad llygad ar sut mae'r system di-gartrefi yn gweithio. Roedd yr ieuencid yn ddi-gartref, fel arfer, achos bod eu perthynas gyda'u teuluoedd wedi torri lawr a hwn oedd eu lloches. Roedd yn ofynnol iddi aros dros nos yn y llety gyda'r bobl ifanc, ond yn drist iawn, oherwydd cyfyngiadau Covid, roedd yn rhaid iddyn nhw aros yn ei stafelloedd, a pheidio a chymdeithasu. Yn y prosiect roedd Sioned yn rhan ohono, byddai yn cynnig cymorth wrth geisio creu dyfodol gwell i'r bobl ifanc ac i'w paratoi i allu byw yn annibynol. Oherwydd y cyfyngiadau Covid, ni fedrwyd dysgu sgiliau bywyd arferol, ond rhan o waith Sioned oedd helpu a hyfforddi'r bobl ifanc ar sut i fancio a delio gyda materion ariannol arlein, ei cynorthwyo wrth lenwi ffurflenni megis ymgeisio am swyddi neu gyrsiau coleg a chysiau galwedigaethol. Hefyd, roedd yn rhaid iddi wneud yn siwr fod y rhai mewn swyddi neu yn dilyn cwrs coleg, fod yn barod i adael yn brydlon yn y boreau.

Ym mis Mai 2020, fe wnaeth Sioned arwyddo cytundeb 3 mis gyda POBL ac ar ôl misoedd o ymestyn y cytundeb, penderfynodd adael y prosiect ym Mai 2021. Gadawodd am ei bod yn teimlo bod angen iddi ail-afael mewn ceisio gwneud bywoliaeth drwy gerddoriaeth. Ar hyn o bryd mae nôl yn gweithio'n hunan gyflogedig ac yn hapus i fod yn medru gwneud peth gwaith mae'n ei garu. Mae'r dyddiadur ymhell o fod yn llawn ond mae gwaith yn dod i fewn yn araf bach. Mae hefyd newydd hyfforddi fel hyfforddwraig "stand-up paddle boarding."

Cafodd y Cyfnod Clo effaith fawr ar fywyd Sioned, ond yn sgil hynny, cafodd brofiadau hollol wahanol a wnaeth echangu'n fawr ei ymwybyddiaeth o fywydau ieuencid bregus. Diolch iddi am fodloni i rannu ei phrofiadau.

Beti Wyn James

Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE

Atgyweirio a M.O.T.

Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr

ALLPUMP SERVICES

ARBENIGWYR MEWN PWMPs FFYNNON
A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH,
SYSTEMAU DŪR BRWNT A SOLAR

Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD

Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693

e.bost:
enquiries@allpump.co.uk

PHIL & SION HARRIES
SEIRI COED

EFAIL FACH
HENLLAN AMGOED

FFÔN:-
01994 240857

LOGIN

Calfaria

Oedfaon

Diolch o galon i'r Parchedig Peter Thomas a Hedd Ladd Lewis am eu gwasanaeth dros y Sulie dwetha, gwerthfawrogn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer mis Tachwedd :-
7fed - Lyndon Lloyd - Cymun am 10.30 o'r gloch
21ain - Parchedig Wyn Morris - 2 o'r gloch

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddiffuant gyda Nerys a Paul Rogers a Cari ar farwolaeth tad a tadcu annwyl sef y Parchedig Gwyn Rogers. Bu Gwyn yn gweinidogaethu am flynyddoedd maith a bu'n pregethu gyda ni yng Nghalfaria droeon dros y degawdau dwetha. Coffa da amdano.

Gwellhad

Dymunwn wellhad buan i Jean Jones, Talar Wen sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

...hefyd i Russell Thomas, Min-y-Ddôl sydd wedi derbyn llawdriniaeth ae ei gefn.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Dafydd Wright a'i bartner Kelly ar enedigaeth mab bach o'r enw Noa. Llongyfarchiadau hefyd i dadcu a mamgu sef Simon a Faith Wright, hen dadcu a mamgu sef Russell ac Ann Thomas ac yn arbennig felly i hen hen mamgu sef Eiriannydd Lewis. Mae hyn yn achlysur nodedig ac arbennig gan taw Noa yw pumed cenhedlaeth y teulu.

RHYDWILYM

Pleser oedd croesawu y Parch Peter M Thomas i Oedfa Gymun ar Sul Medi 19eg. Hyfryd hefyd oedd croesawu ei briod Meryl oedd wedi dod am dro gydag ef. Cyn gweini y Cymun gwnaeth dalu teyrnged fer i'r brawd Islwyn John a fu farw yn ystod yr haf yn 97 oed. Ef oedd ein haelod hynaf. Coffa da amdano.

Trefn Gwasanaethau

Hydref 17eg 2.00 Gareth Ioan (Cymun)
Tachwedd 7fed 2.00 Lyndon Lloyd
Tachwedd 21ain 10.30 Parch Wyn Morris (Cymun)
Oedfaon yng ngofal y swyddogion i'w trefnu.

Drwg gennym glywed fod Teifion John, Dolbetws wedi

marw yn yr ysbyty. Yr ydym yn cydymdeimlo gyda'i briod Beryl a'r teulu i gyd.

Pob bendith i bawb sydd yn anhwylys ar hyn o bryd.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at daith gerdded Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda.

RHYDYCEISIAID

Penblwydd. Dymunwn yn dda i Mrs. Doreen Adams sydd wedi dathlu ei phenblwydd yn 80 oed ym mis Medi. Mae Doreen wedi bod yn weithgar iawn yn Rhydyceisiaid ar hyd y blynyddoedd, fel Ysgrifennydd ac organyddes ac mae'n dal i roi unrhyw newyddion i'r Cardi Bach. Diolch yn fawr iddi.

(Swyddogion y Cardi Bach)

Penblwydd Hapus yn 80 oed



Doreen Adams yn dathlu ei phenblwydd arbennig yng nghwmni ei mab Aled a'r wyrion Thomas a Megan

Diolch

Dymuna Doreen Adams ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion, blodau a bwyd blasus a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 80 oed ar Fedi 17eg.

CJ Waste cyf.

Carl Britton
01994 238367
07506 482007



cjwasteltd@yahoo.com

Prisiau ardderchog

Gwagio tanciau septig / carthbyllau

Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr, SA33 4JZ

Carwyn a Sian James

J. K. Lewis a'i Fab

Glandy Cross



Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol,
Gwin a Chwrrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy,
Loteri a phob peth fydd angen amoch ar
unrhyw achlysur.

Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.
Dydd Sul, 7y.b. - 6 y.h.

Ffôn: 01994 419230



G WILLIAMS
a'i FEIBION

Monumental Masons

SEIRI MEINI COFFA

Pentre Yard
San Clêr

Ffôn: (01994) 231390



Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'r Parch a Mrs Guto Llewelyn, Mari a Dafydd yn dilyn eu profedigaeth o golli ewythr sef Mr Iolo Jones o Bontgarreg.

BLAENWAUN

Moriah

Diolch i Gareth Ioan a Nigel Davies am eu gwasanaeth ym mis Medi.

Trefn yr oedfaon o hyn tan ddiwedd y flwyddyn.

Hydref 17eg. Cwrdd Diolchgarwch. Gareth Ioan - 3.30yp

Hydref 31ain. Elonwy Phillips - 2 o'r gloch.

Tachwedd 14eg. Gareth Ioan - 3 o'r gloch

Rhagfyr 5ed. Gareth Ioan - 1.30yp

Dymuniadau gorau i Glyndwr Davies ein haelod hynaf sydd yn dathlu ei benblwydd yn 93 oed ar y cyntaf o Dachwedd. Pob dymuniad da iddo yng nghartref Garreg Lwyd.

BANCYFELIN

Gibeon

Braf oedd cael ail agor y capel, ar ôl deunaw mis o fod ynghau, ar Fedi'r 19eg. Cafwyd oedfa yng ngofal y Gweinidog, y Parch Rhodri Glyn Thomas ac roedd cynulleidfya niferus yno. Gobeithir cynnal un oedfa y mis o hyn ymlaen.

Dymunwn yn dda i Mr Billy Davies, Bronygaer, sydd wedi torri asgwrn yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Rhodri a Hannah ar enedigaeth mab bach, Thom Pendle, ac i Lyn a Bethan Davies, Derlwyn Tâf, ar ddod yn dadcu a mamgu.

Bore Coffi Macmillan



Bore Coffi MacMillan

Codwyd £1,000 i Mac Millan yn dilyn y bore coffi gynhaliwyd gan aelodau Capeli'r Priody, Cana a Bancyfelin ddiwedd Medi. Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth i gefnogi.

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhaliwyd gwasanaethau Diolchgarwch dan ofal teuluoedd yr Ysgol Sul yng Nghana a Bancyfelin bawn Sul, 10 Hydref ar y thema 'bananas!'. Bu rhaid i ambell deulu hunan ynysu oherwydd Covid ond llwyddwyd i'w ffilmio o flaen llaw yn dweud eu rhannau a'u cynnwys yn yr oedfa ar y sgrin! Diolch yn fawr iawn i bawb a gymerodd rhan yn y naill oedfa a'r llall ac am y cyfraniadau hael i'r Banc Bwyd.

Bu'n gweinidog, Y Parchg Beti Wyn yn casglu pwmpen o Fferm Y Plas, Bancyfelin ar gyfer y cyrddau diolchgarwch. Llongyfarchiadau i deulu'r Plas ar y fath arddangosfa a diolch am bob cymorth i'r gweinidog i gario'r bwmpen nôl i'r car!!



Capel Bancyfelin



Capel Cana



Help i gario'r bwmpen o Fferm y Plas !!

Rhas Cefn y Ddraig

Bu Dean Thomas, Swyddfa'r Post, yn cystadlu yn Ras Cefn y Ddraig ar ddechrau Medi. Hon yw'r ras fynydd anoddaf yn y byd yn 380km o hyd a dros 57,000 troedfedd o esgyniad tir. Mae'r ras yn para 6 diwrnod gyda'r rhedwyr yn rhedeg ar gyfartaledd 63km y dydd, tua 1.5 marathon! Gwnaeth Dean yn arbennig o dda i gyflawni'r ras yma, tipyn o gamp yn wir. Roedd yn codi arian tuag at Ambiwlans Awyr Cymru a chodwyd dros £4,800 eisoes.



Dean wedi gorffen y ras

CWMBACH

Cynhaliwyd Cyfarfod Diolchgarwch Eglwys Llanwinio ar fore Sul, Medi 26ain gyda Archddiacon Tyddewi y Parch Paul Mackness yn gwasanaethu. Mrs. Marianne Phillips oedd yr organyddes. Derbyniwyd cyfraniadau i'r banc bwyd.

Mae'r Clwb Bowlio wedi ail ddechrau yn y neuadd ar nos Lun am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i aelodau newydd.

TRELECH

Cydymdeimlwn yn fawr iawn â Carol a David Greeves, Pentrecagal ar farwolaeth tad Carol yn ddiweddar, sef Mr Roderick Bevan o Maenclochog.

Dymuna Anwen Phillips, Cilifan, ddiolch i bawb am y cardiau a'r rhoddion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 18 oed.

Dymuna Elin ac Anwen Phillips, Cilifan, ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr her 'Race for Life'. Rydym fel tîm wedi codi dros £3000 i ymchwil cancr. Diolch yn fawr.

Cynhaliwyd Bore Coffi Macmillan ar ddechrau'r mis yn Nhafarn Beca. Codwyd £200 at yr elusen.

HENDYGWYN

Tabernacl

Mae'n fis Hydref unwaith eto ac mae'r sefyllfa gyda 'Covid' yn parhau yn beryglus ym mhob man.

Mae ein hoedfaon y dyddiau hyn am 10 o'r gloch ac rydym wrthi ar hyn o bryd ynghanol edrych ar wragedd yn y Beibl. Yn ystod mis Hydref cafwyd dwy oedfa ar stori Esther. Esther yw un o'r ddau lyfr yn y Beibl sydd wedi enwi ar ôl merched. Mae'n siŵr eich bod chi yn gwybod pa un yw'r llall?

Fe gafodd rhai o aelodau'r capel a'r ofalaeth gyfle i gymryd rhan yn nhaith gerdded Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda a gynhaliwyd yn ddiweddar. Cafwyd bore Sadwrn braf ar gyfer y cerdded wrth i'r cerddwyr ddechrau a gorffen yng Nghapel Mynachlogddu.



Delyth Dent, Ann Lewis, Menna Lewis a Guto Llywelyn

Mae nifer o'n haelodau wedi bod yn anhwylyd yn ddiweddar ac eraill wedi bod yn cael llawdriniaeth. Dymunwn yn dda iddynt i gyd.



Dymunwn yn dda i Ann Glanville hefyd a oedd yn dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Mae nifer o'n plant a'n ieuencid wedi llwyddo yn yr arholiadau ac wedi graddio yn ddiweddar. Llongyfarchiadau iddynt i gyd. A phob dymuniad da i bawb sydd wedi newid ysgol neu wedi dechrau yn y coleg am y tro cyntaf.

Mae grŵp trafod y Beibl wedi ail-ddechrau ar ôl yr haf a hynny trwy 'zoom' ac roedd yna 14 yn bresennol yn y cyfarfod cyntaf.

Croeso cynnes i unrhyw un ymuno gyda ni ar gyfer y grŵp trafod ac ar gyfer ein hoedfaon wythnosol am 10 o'r gloch bob bore Sul.

Hoelion Wyth - Cangen Hendygywn

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ers dechrau'r cyfnod clo, deunaw mis yn ôl, ar Nos Iau, Hydref 7fed yn Lolfa Clwb Rygbi Hendygywn. Deuddeg o'r aelodau oedd yn bresennol a chroesawyd hwy yn gynnes gan y Cadeirydd, Claude James. Noson anffurfiol oedd hon – dim siaradwr gwadd ond cyfle i adnewyddu cyfeillgarwch.

Gofynnodd y Cadeirydd am funud o dawelwch i gofio am aelodau oedd wedi colli anwyliad yn ystod y cyfnod, nid o reidrwydd oherwydd Covid-19. Yn dilyn, offrymodd Ithel Parri Roberts weddi deimladwy iawn dros yr unigolion a gollwyd. Cyfeiriwyd hefyd at yr aelodau sy'n anhwylyd ar hyn o bryd, yn cynnwys Myrddin Parry a Ron Jenkins sydd mewn Cartrefi Gofal; Ronnie Howells a Verian Williams (Ysgrifennydd) a oedd ddim yn teimlo'n ddigon da i fod yn bresennol.

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol a phenderfynwyd ail-ethol y swyddogion i gyd. Penderfynwyd cynnal Cinio Blynnyddol, i'w drefnu gan Mel Jenkins, y Swyddog Adloniant pan fydd y canllawiau yn caniatau. Penderfynwyd hefyd noddi gêm yn y Clwb Rygbi ddechrau'r flwyddyn, sef Hendygywn yn erbyn Crwydriaid Llanelli (Wanderers).

Diweddwyd y noson gydag ambell joc gan Huw Davies a dyfyniadau allan o'r llyfr 'Hiwmor y Cardi' – noson bleserus i ddechrau'r tymor.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Nos Iau, Tachwedd 4ydd.

Cylch Meithrin Hywel Dda

Ennill Safon Arian y Mudiad Meithrin

Llongyfarchiadau mawr i Gylch Meithrin Hywel Dda ar ei llwyddiant ar ennill statws Seren Arian y Mudiad Meithrin. Mae'r Seren Arian yn rhan o gynllun ansawdd y Mudiad sef y Safonau Serennog, ac yn dystiolaeth o safon uchel y Cylch. Mae'n cael ei gydnabod gan Estyn a'r AGC ac yn fodd o hysbysu rhieni, ynghyd ag asiantaethau statudol a gwirfoddol y gymuned, o ansawdd y ddarpariaeth a gynigir gan y Cylch.

I gael ei dyfarnu, bu'n rhaid i'r Cylch Meithrin gyflwyno portffolio i Mudiad Meithrin a gafodd ei adolygu gan

banel ansawdd. Mae ansawdd uchel yn ymwneud â llawer o wahanol elfennau, ond yn sail i bopeth mae'r plentyn e.e: Lles y Plant, Profiadau Dysgu, Gofal a Datblygiad, Rheoli ac Arwain, Yr Addysg ac Asesu, Yr Amgylchedd a'r Iaith Gymraeg

Bwriad y Cynllun Safonau Serennog felly yw cydnabod hynny ynghyd ac adnabod arferion sy'n golygu bod cylch meithrin yn gweithredu i safon sydd uwchlaw'r safon ddisgwyliedig/gofynnol.



Llongyfarchiadau mawr felly i Gylch Meithrin Hywel Dda, yn enwedig i Jayne Williams a Christine Evans, Arweinydd a Chynorthwydd y Cylch, a'r Pwyllgor are eu llwyddiant.

Rosemarie Davies
Cyfrifydd Technegol

Treth Ar Werth Cyflogau
Cadw Cyfrifon Hunan Asesiad

Fferm Blaenwaun, Hebron

Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799

Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians


Delwedd

Salon
Harddwch
a
Chyflenwol

Ffôn:
01239 831479

Triniaeth o safon mewn
awryglych gartrefol gan Nia

Safle siop trin gwallt Chris, Crymch

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr

Bara a chacennau ffres yn ddyddiol



Ffôn: 01994 230474

Taith Tractorau er cof am Brian Brown



Cynhaliwyd taith tractorau Hendy-gwyn ar y 4ydd o Fedi, er cof am Brian Brown, Maeshyfryd, Hendy-gwyn. Roedd Brian wedi trefnu taith tractorau am flynyddoedd lawer ac wedi codi cryn dipyn o arian ar gyfer elusennau teilwng.

Hoffai'r teulu ddiolch yn ddiffuant i bawb a wnaeth gymryd rhan ac i eraill a gyfranodd yn hael. Mae £900 wedi ei ddanfoni i Ambiwlans Awyr Cymru.

EFAILWEN Priodas Dda



Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Rhianon Llewelyn, Dolawel, Efailwen a Tom Pearce, Derwydd, Lland-eilo ar eu priodas ar Fedi 25ain yng Nghapel Pisga, Llandysilio. Mae'r ddau wedi ym-gartrefu yn Allt y Gog, Caerfyrddin. Mae Rhianon yn gweithio fel Swyddog Cyfathrebu i Gomisiynydd

Plant Cymru a Tom yn beiriannydd gyda chwmni CCTV Wales, Fforestfach, Abertawe.

Dymunwn wellhad buan i Jean Jones, gynt o Neuadd Wen sydd yn Ysbyty Glangwili ar ôl codwm yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Edryd Eynon, Plas y Bedw ar ei benodiad yn bennaeth ysgolion Brynconin a Maenclochog. Dymuniadau gorau iddo pan fydd yn dechrau ym mis Ionawr.

Hoelion Wyth - Cangen Beca

Cyfarfu aelode'r gangen, am y tro cynta ers dros flwyddyn a hanner, ar nos Fercher, Medi 29ain. Roedd hi'n hyfryd cwrdd â'n gilydd gwyneb yn wyneb unwaith eto, yn hytrach na gweld ein gilydd ar sgrin fach, drwy gyfrwng zoom.

Croesawyd pawb ynghyd gan Eifion Evans y Cadeirydd ac estynodd groeso arbennig i'r siaradwr gwadd sef Wyn Thomas o Bontsian. Ma Wyn yn gweitho'n rhan amser i Tir Dewi, elusen sefydlwyd gan Eileen Davies o Lanllwni nôl yn 2015.

Cawsom gyflwyniad gwych gan Wyn am y gwaith mae Tir Dewi yn ei gyflawni. Soniodd am sut wnaeth Eileen Davies, holi Wyn Evans, Esgob Tyddewi ar y pryd, am gefnogaeth ariannol i sefydlu elusen, er mwyn cefnogi ffermwyr sydd yn brwydro i ymdopi gyda'r pwysau a ddaw o redeg fferm. Dechreuodd Tir Dewi fel elusen fechan yn cynnig cefnogaeth i ffermwyr Siroedd Penfro, Ceredigion a Caerfyrddin, ond yn ystod y flwyddyn diwethaf, estynnwyd y gefnogaeth honno i Ogledd Cymru, Powys a Phenrhyn Gwyr.

Hyd yn hyn, mae gwirfoddolwyr Tir Dewi wedi cynorthwyo dros 300 o deuluoedd ffermio gydag amrywiaeth o faterion, problemau, gofidiau ac heriau - ac mae'r nifer yn codi'n ddyddiol. Mae Tir Dewi yn cynnig llinell ffôn gyfrinachol am ddim, gyda'r dewis o siarad yn Gymraeg neu Saesneg, 7 diwrnod yr wythnos, o 7 y bore tan 10 y nos.

Mae pawb yn ymwybodol bod gweitho mewn amaethyddiaeth yn gallu bod yn ofnadwy o anodd. Mae'n gallu bod yn unig, gyda phwysau gwaith aruthrol, ac mae'r ffermwr yn aml yn gorfod cario'r pwysau hynny i gyd, heb fedru ei rannu gyda neb arall.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae mwy o waith papur ynghlwm wrth amaethyddiaeth, mae rheolau yn newid yn gyson, mae gofidiau wedi cynyddu ac mewn nifer o achosion, mae'r cymorth a'r gwmniaeth oedd yn nod-

Colin J. Harries
Cigydd o Safon 
Gwasanaeth arlwyio ar gael hefyd
London House, 
Hendygywyn-ar-Dâf 01994 240705
Galwch i mewn am y dewis gorau


GERALD BLAIN
CYMDEITHIWN CYF
The Engineering Company
Manufacturers
15 Stryd St Iwan, Hendygywyn,
SIR GAERFYRDDIN, SA34 0AN
01994 240 366
GERALD@GERALDBLAINASSOCIATES.CO.UK
GERALDBLAINASSOCIATES.COM
@GBASSOCIATES

RUSSELL THOMAS
GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR
 
Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

weddiadol o gymunedau amaethyddol, wedi lleihau yn aruthrol.

Pwrpas Tir Dewi yw bod ar gael i gynnal a chefnogi ffermwyr a'u teuluoedd drwy gyfnodau anodd, bod yn glust i wrando ac i gynorthwyo gyda pethau ymarferol fel gwaith papur neu alwadau ffon.

Mae gan Tir Dewi 60 o wirfoddolwyr ac mae pob un ohonynt yn deall ffermwyr ac yn cydymdeimlo gyda'r problemau sy'n eu poeni. Nid oes y fath beth ag "annual", "sick" neu "compassionate leave" ar gael i ffermwyr, mae'n rhaid iddynt gario mlaen. Ond mae cario mlaen gallu bod yn frwydr anodd iawn ar adegau, dyna pryd dylech ofyn am gymorth. Mae gwirfoddolwyr Tir Dewi yn barod i wrando a'ch cefnogi felly rhowch alwad iddynt ar 0800 121 4722.

Diolchwyd i Wyn am anerchiad wych iawn gan Eifion a bu pawb yn mwynhau basned o gawl bendigedig ar ddiwedd y noson, diolch i Robert am hynny.

Hyderwn bydd modd i ni ddod at ein gilydd eto ar nos Fercher, Hydref 27ain.



Wyn Thomas yng nghwmni Eurfyl Lewis, Eifion Evans a Ken Thomas

LLANBOIDY

Sefydliad y Merched

Cynhaliwyd cyfarfod mis Medi y sefydliad yn Neuadd y Farchnad o dan lywyddiaeth y llywydd Chris Murrell. Trafodwyd busnes i ddechrau, gyda'r llywydd yn llongyfarch Valerie Dixon ar gipio'r ail wobwr yn Sioe y Sir am wneud gorchudd 'coat-hanger', a Norah am ddod yn 3ydd am lunio brawddeg yn dechrau gyda'r llythrennau 'BLANCED'. I ddilyn roedd Chris wedi paratoi cwis i'r aelodau, a Valerie oedd yn fuddugol.

Cydymdeimlwn â theulu Castell Pigyn ar ôl y newyddion trist iddynt golli eu mab Huw i salwch creulon.

Diolch

Dymuna Ronnie a Mair Morgan, 3 Picadilly, Llanboidy ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniwyd ar achlysur dathlu 65 mlynedd o fywyd priodasol yn ddiweddar.

Trinity

Priodas Ruddem



Fe wnaeth Delyth a Peter Dent ddathlu 40 mlynedd o fywyd priodasol yn ddiweddar. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da wrth pawb yn y Trinity ac wrth y teulu a'u ffrindiau i gyd.

DAVID HARRIES & Co

CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD

Westgate, West Street
Hendygywyn ar Daf

Ffôn: 01994 241100

Batteries, Belts, Bearings, Compressors,
Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

W. J. KENNETH DAVIES
ei Feibion a'i Ferch

SEIRI COED
a
THREFNWYR ANGLADDAU

Blaenwern, Clunderwen

Ffôn: 01437 563319

WYN DAVIES a'i FRODYR

ADEILADWYR
Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf

Ffôn: 01437 563300

LLANGYNIN

Priodas Dda



Llongyfarchiadau i Carys Mererid Davies, merch Nigel a Sian, Llain Deg, a Josef Forman, mab Jeff ac Ivana, a briodwyd yng Nghapel Penuel, Caerfyrddin, ar Orffennaf 26ain.



Llongyfarchiadau i Rolant Glyn a Harriet ar eu priodas a gynhaliwyd yng nghlwb rhwyfo Putney, Llundain, ar Awst 28ain.

Hir oes a phob hapusrwydd i'r ddau bâr ifanc a phob dymuniad da iddynt ar gyfer y dyfodol!

Ymddeoliad



Llongyfarchiadau i Phillip Morgan, Awelfa, ar ei ymddeoliad ar ddiwedd mis Gorffennaf. Mae Phillip wedi bod yn filfeddyg yn y gymuned leol ers bron 40 mlynedd a bellach mae'n haeddu cael amser i ymlacio a mwynhau bywyd. Pob dymuniad da iddo am ymddeoliad hir a hapus.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Sam Durell, mab Ellen a Michael, Trem y Cwm, a benderfynodd eillio ei ben yn ddiweddar a thrwy wneud hynny fe lwyddodd i godi'r swm anrhydeddus o £600 ar gyfer elusen Ymchwil Cancr, er cof am ei famgu June Saywell. Llongyfarchiadau mawr i ti Sam!



Erbyn hyn mae Ellen a Michael Durell, rhieni Sam, wedi symud i fyw i ardal Ridgeway, Casnewydd. Pob lwc iddynt yn eu cartref newydd.

SPAR 

Jerry Williams a'i Feibion

GROSER a SWYDDFA BOST

 **CLOTH HALL LLANBOIDY**

Ffôn: 01994 448364 / 448221 

 **Adeiladwyr DORIAN PHILLIPS**

Crefftwyd o bob math yn y diwydiant adeiladu o hen i newydd

Arbennigwyr mewn ail wneud Capeli, Eglwysi ac Ysguborau

Dolau Gronw, Llanboidy, Hendygywn, Sir Gar, SA34 0EE
Rhif: 01994 448435 : Rhif Symudol 07899 186036
e.bost: dorian@dorianphillipsbuilders.co.uk

dp MASNACHWYR ADEILADU

Plymio - Addurno - Coed - Draeniad
Insiwleiddio - Ceginau - Bathrwm
A Llawer Mwy!

LLANBOIDY - ARBERTH
01994 448435 - 01834 861118
www.dpbuidingsupplies.co.uk

NEWYDDION BLAENCONIN

Mair Eithinmaen

Daeth nifer o gyfeillion
Mair ynghyd i'r fynwent
prynhawn Gwener, Medi
24ain, i dalu'r gymwynas
olaf iddi a rhoddi ei gwed-
dillion marwol ym medd y
teulu.

Bu Mair yn ffyddlon ym
Mlaenconin ... a hefyd yn
Nasareth a'r Tabernacl,
Hendy-gwyn.

Cymeriad lliwgar, hoffus.
Diolchwn am ei bywyd a'i
chyfeillgarwch.



Diolchgarwch

Cynhelir Oedfa o Ddiolchgarwch ar y Sul cyntaf o
Dachwedd am 10.30 y bore.

Beirdd Blaenconin

Er gwaetha'r cyfyngiadau, mae Beirdd Blaenconin wedi
bod yn brysur.

'Gobaith'

Ti yw'r gobaith ym mhob gofid,
Ti yw'r wawr sy'n dod a'r dydd ;
Ti yw'r golau pan ddaw'r hinos,
Ti, yn wir, yw fflam ein ffydd :
Geiriau Duw – gobaith gwiw,
Ffordd y nef yw'r ffordd i fyw.

Ti yw'r Bugail ar y bryniau,
Ceisio'r coll ymysg y brwyn ;
Dod o hyd i'r un colledig,
Casglu a choleddu'r ŵyn :
Geiriau Duw – gobaith gwiw,
Ffordd y nef yw'r ffordd i fyw.

Ti yw'n maeth a bara'r bywyd,
Ti yw'r Ffordd i'w fendith Ef ;
Ti yw'r Atgyfodiad perffaith,
Ti yw drws trigfannau'r nef :
Geiriau Duw – gobaith gwiw,
Ffordd y nef yw'r ffordd i fyw.

Sul y Cofio

Ail Sul Tachwedd (14eg). Cwrdd o flaen Cofeb
Clunderwen am 10.45yb.

CWM MILES

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch yr eglwys ar bryn-
hawn Sul, Hydref 10fed am ddau o'r gloch. Cafwyd oedfa
fendithiol o dan arweiniad Mr Arwel Evans. Hyfryd
oedd cael cwrdd yn y capel am y tro cyntaf eleni. Diolch
i Arwel ac i aelodau a ffrindiau yr eglwys am eu prese-
noldeb.

Dymuniadau gorau i Nan Evans, un o aelodau'r egl-
wys, sydd wedi symud i gartref Garreg Lwyd San Clêr
ddechre'r mis. Pob dymuniad da iddi. Rydym yn meddwl
hefyd am Dewi ei brawd bydd yn gweld ei heisiau yn
fawr yn eu cartref.

SAN CLER

Llongyfarchiadau i Don Jones, Gerddi Mair, a fu'n
dathlu ei benblwydd yn 90 oed ar ddiwedd Mis Awst.

Mae'n hyfryd deall fod Wilma Robins, wedi cyfnod
hir o salwch, nawr wedi symud i fyw i Rhydygors.
Roedd Wilma yn byw yn Hornechurch, Essex, ac mae'n
gefnogwr brwd o'r Cardi Bach. Dymunwn yn dda iddi
yn ei chartref newydd.

Llongyfarchiadau i Lyn a Bethan Davies, Derlwyn Taf,
ar enedigaeth ŵyr, Thom Pendle, mab bach i Rhodri a
Hannah.

Cynhaliodd Nora a Gilbert Williams, Kilmore, de
prynhawn yn eu gardd ar Fedi 25ain i godi arian tuag at
elusen Macmillan. Cafwyd prynhawn llwyddiannus a
chodwyd £1000.

Llongyfarchiadau i Lisa (Backe gynt) ac Alex ar
enedigaeth mab, Lewis Rhys Edward Moylan,
ŵyr i Anne Davies, Ffynnonseiri a Keith Davies,
Trafaelyrych.

IFAN DAVIES
Saer Coed

Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA

07875 540469

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf
Robert W. R. Morgan

ECA CYMERADWYEDIG GAN NICEIC

17 Trevaughan Lodge
Hendygywn ar Daf
SA34 0QF

Ffôn: 01994 240946 - Symudol: 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

ARWYDDION A DYLUO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN

01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk

UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

CWMFELIN MYNACH

Ramoth

Ar Sul 3ydd o Hydref, pleser oedd croeswau Mrs Annalyn Davies, Bancyfelin am y tro cyntaf i bulpud Ramoth a chafwyd oedfa gymun bendithiol yn ei chwmmi. Cynhaliwyd oedfa ar brynhawn Sul, Hydref 10fed o dan wasanaeth y Parchg Huw George.

Gan fod Rhoswen Llewellyn wedi ymddeol fel Ygrifennydd, trefnwyd fod Huw George a'r aelodau yn ymweld â hi ar ôl y gwasanaeth er mwyn cyflwyno rhodd a blodau iddi, fel gwerthfawrogiad o'i gwaith am nifer o flynyddoedd gan ddymuno'n dda iddi a gwell iechyd.



Rhoswen yng nghwmni Roy, yn derbyn rhodd o law'r Parchg Huw George a blodau wrth Ivy Edwards ar ran aelodau Ramoth.

Trefn oedfaon:

Ni fydd oedfaon ym mis Tachwedd.

Rhagfyr

12 fed - Oedfa Gymun dan ofal y Parchg Huw George
19eg Oedfa Nadolig dan ofal yr aelodau (amser i'w gadarnhau)

Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda

Diolch i Merle, Ivy, Llinos a Buddug am gynrychioli Ra-

moth ar y daith gerdded ar Sadwrn, Medi 11eg. Diolch arbennig i Buddug Phillips, Merlais am gasglu £320.

Cydymdeimlwn â Mair Hay (Edwards gynt), Daniel a'r teulu ar farwolaeth gŵr, tad a thadcu annwyl sef Paul Hay (gynt o Hendygywyn). Yr oeddent yn byw yn ardal Pontypridd a bu Mair yn aelod o Ysgol Sul Ramoth pan oedd y teulu yn byw yn yr ardal.

....hefyd â theuluoedd Blaendyffryn a Trefyw ar farwolaeth perthynas, sef Morwen James, San Cler

Ymddeoliad

Pob dymuniad da i Ivy Edwards sydd wedi ymddeol ar ôl 42 mlynedd yn gweithio yn y diwydiant trydan.

Penblwydd hapus i Rhian Davies, Meisgin a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 40 oed ar Dachwedd 12fed.

Diolch. Dymuna Meirwen Evans, Y Felin ddiolch am bob caredigrwydd a dderbyniodd ar ôl ei chwymp yn ddiweddar.

Mae teulu newydd wedi symud i Caeglas ac estynnwn groeso cynnes iddynt.

Priodas Berl



Longyfarchiadau a dymuniadau gorau i Tadcu a Mamgu (Derek a Caroline James, Blaendyffryn) ar ddathlu eu Priodas Berl ar Hydref 19eg. Cariad mawr wrth Carla, Idris a Lilly

**GWASANAETH
CEIR HENDYGWYN**

Canolfan
atgyweirio ceir



Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts a.y.y.b

Dai James - Steven Owens
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r
Ffynnon, Hendygywyn ar Daf

01994 240230 / 07972 725193

**SIOP SIAN
CRYMYCH**



Crefftau Cymreig
Gemwaith Rhiannon
Crisial Brenhinol Cymru
Crefftau Lleol
Cardiau, Casetiau, CD's, Llyfrau
Crymych, SA41 3QF
FFôn: 01239 831230

GAREJ WYN CYF

Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG

MOT
Gwasanaeth • Atgyweirio
Teiars • Batris

Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

CLUNDERWEN

Llongyfarchiadau i Chris (Ladds) a Jess, Bellevue, ar enedigaeth bachgen, Teddy William Davies, brawd bach i Molly, wŷr arall i Andrew a Janet, a gorwyr i Hywel a Sadie.

.....hefyd i Dafydd a Kelly, Glendale Villa ar enedigaeth bachgen, Noa Jackson Wright, brawd bach i Emily ac wŷr bach cyntaf i Simon a Faith, gorwyr cyntaf i Ann a Russell, Min-y-ddol, a mae hyn yn gwneud Mrs Eirianydd (Nin) Lewis yn hen-hen-famgu balch iawn.

Dymunwn wellhad llwyr a buan i Russell Thomas, Min-y-ddol, wedi iddo gael llawdriniaeth ar ei gefn yn Ysbyty Treforys, braf clywed ei fod wedi dod adre.

....hefyd i Angela Thomas, Brynderwen a fu yn yr ysbyty am wythnos, falch clywed ei bod hefyd wedi dod adre.

Priodas dda



Priodas dda i Bethan Simmons a Rhys Evans, priodwyd y ddau yn Eglwys Robeston Wathen gyda'r wledd mewn cae tu ôl yr Eglwys. Mae Bethan yn ferch i Tim a Delyth, Coxlake, Arberth ac yn wyres i Mary Llewellyn, Garth, Login.

LLANDYSILIO

Penblwydd

Penblwydd hapus i Janet Davies a oedd yn dathlu penblwydd arbennig iawn, yn 80 oed, ar yr 22ain o Fedi.



Penblwydd hapus i Osian Jones yn flwydd oed ar Hydref 5ed, mab Sioned a Llŷr Jones. Mae Sioned yn ferch i Michael a Delyth Roblin, Fferm Glynty. Cafodd Osian hefyd ei fedyddio yng nghapel Lland-eilio, Maenclochog gan y Parchg Ken Thomas ar yr 26ain

o Fedi. Cafwyd parti i ddilyn yng nghanolfan Hermon i ddathlu'r bedydd a'r penblwydd. Diolch i bawb a fu'n helpu, ac am yr holl gardiau ac anrhegion.



Osian gyda'i rieni a'r Parch. Ken Thomas

Llongyfarchiadau i Rhodri Davies, mab Denzil a Cheryl ar dderbyn gradd BA, BSc, RMN

....hefyd i Catrin Jones a Tom Hodge, Nyth Ni, ar enedigaeth merch fach Mabli Hana, ar fore Iau, Medi 30ain. Wyres gyntaf i Diane a Mark Jones, Tŷ Gwyn, Llandysilio.

....hefyd i Hywel a Sadie Davies, Brynclyd, Llandysilio ar enedigaeth gor-wyr, bachgen bach i Christopher Davies a Jess Reynolds, ar 3ydd o Hydref, Teddy William Davies.

FFENESTRI
M.W.J
WINDOWS
 FFENESTRI, DRYSAU, PVC
 YSTAFELLOEDD GWYDR
 A GWTERI
 TY GWYN, LLANDYSILIO, CLYNDERWEN
 01437 563 806 / 07774 812587

Caffi Beca

Robert James
 Efailwen, Clunderwen
 01994 419735
 Ar agor am frecwast, cinio, te a swper.
 Ystafell ychwanegol i eistedd 70
 ar gyfer bob achlysur.

WYN'S TYRES

 BRECIAU ac EGSOSTS
 Galwch i mewn am brisau cystadleuol
 a gwasanaeth heb ei ail
 UNED 1
WEMBLEY GARAGE
SAN CLER
 Ffôn: (01994) 231599

Cylch Meithrin Llandysilio

Addysg Gymraeg i Blant 2-4 oed yn Neuadd Llandysilio
Bore Llun, Mawrth, Iau a Gwener - 9 - 12 yp

Cylch Ti a Fi Llandysilio

Mae y Cylch Ti a Fi wedi ail agor nawr ar ôl seibiant gwyliu'r Haf.

I blant 0-4 oed a rhiant/gwarchodwr.

Bore Mercher 10 - 12yp yn Neuadd Llandysilio.

£3.00 y sesiwn.

Am fwy o fanylion y Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi cysylltwch â Delyth Roblin ar 07882639867.

PWLL TRAP

Dymunir Penblwydd hapus i Sally Davies, Lluet, sy'n dathlu ei phenblwydd yn 85 oed ar Hydref 30ain.

Trist yw cofnodi marwolaeth Margaret, gwraig y diweddar Hugh Evans, Clogyfran a mam Denise ac Adrian.

Bethlehem Newydd

Cynhaliwyd oedfaon ym mis Medi dan ofal y gweinidog, y Parchg Rhodri Glyn Thomas, y Parchg Desmond Davies a Mrs Maria Evans.

Cynhaliwyd bore coffi llwyddiannus yn yr ysgoldy i godi arian tuag at elusen Macmillan. Trefnwyd y bore coffi gan Eirlys Thomas a gwnaed elw o dros £400.

Yn ystod mis Hydref gwneir casgliad o nwyddau tuag at Loches Menywod Caerfyrddin. Gofynnir am nwyddau golchi a hylendid, hefyd anrhegion Nadolig, megis 'Selection boxes'. Bydd y capel ar agor rhwng 10 a 12 ar fore Sadwrn yn ystod y mis i dderbyn nwyddau, neu cesglir hwy yn y capel ar y Sul. Bydd bocs i dderbyn nwyddau hefyd yn siop Pethau Olyv.

Cydymdeimlir â Iris Morgan ar farwolaeth ei chwaer yng nghyfraith, Esther Waters, o Dalacharn. Roedd hefyd yn fodryb i Christine Bevan, Tavernspite.

Dymunwn yn dda i Wilma Robins sydd wedi symud i fyw yn Rhydygors. Da yw deall hefyd ei bod ar wellhad erbyn hyn.



Cyfarfod Blynyddol C.F.F.I Sir Gâr

Nos Fercher, 29ain Medi 2021, cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr a hynny wyneb yn wyneb yn Neuadd Pontargothi.



Cyn dechrau'r cyfarfod cyhoeddodd Iestyn Owen, Cadeirydd y Sir am 2019-20 a 2020-21 bod Her Seiclo'r 75 wedi codi £4350 tuag at Ambiwylans Awyr Cymru, Ymateb-wyr Cyntaf Caerfyrddin a Leukaemia Research Appeal for Wales. Golygir hyn fod y tri yn cael £1450 yr un.

Mr Hefin Evans, cyn aelod CFfI Capel Iwan gafodd ei ethol fel Cadeirydd Sir am 2021-2022 gyda Mr Aled Thomas, CFfI Dyffryn Cothi yn cael ei ethol fel Is-gadeirydd am y flwyddyn. Diolchwyd i Mr Iestyn Owen am ei waith fel Cadeirydd Sir am 2019-20 a 2020-21.

Hefyd yn y cyfarfod, cafodd Siôn Evans, CFfI Llanllwni ei ethol yn Gadeirydd Gweithgareddau, a Ffion Medi Rees, CFfI Llanfynydd yn Is-gadeirydd ar y Pwyllgor. Sian Williams, CFfI Llangadog bydd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid gyda Caryl Jones, CFfI Llanddarog yn Is-gadeirydd ar y Pwyllgor.

Llywydd CFfI Sir Gâr am eleni bydd Mr Elfyn Davies, Troed y Bryn, Ffarmers gyda Mr Colin Evans, Gwarwenallt, Bancyfelin yn Is-lywydd. Llongyfarchiadau iddynt hwy a diolchwyd i Mrs Jean Lewis, Neuadd, Trelech am ei gwaith fel Llywydd am y dair mlynedd diwethaf.

Yn ystod y cyfarfod blynyddol, cyhoeddwyd mae Clwb Ffermwyr Ifanc Penybont oedd yn derbyn Cwpan coffa Elfyn Richards am y clwb gyda'r pwyntiau uchaf yng nghystadlaethau siarad cyhoeddus Cymraeg a Saesneg am

AWEN TEIFI

Dewis da o lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion, hefyd cardiau a CDau

Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn

Ffôn: 01239 621370

23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

Allen and Partners Milfeddygon



ALLEN & PARTNERS
Veterinary Services Ltd

Hendygwyn: 01994 240 318

Gerald Llewellyn a'i Fab

Peirianwyr Gwresogi
a Phlymwy

Am y dewis gorau o ffyrnau i'r gegin
Nwy neu Olew

CELT • AGA • RAYBURN • SORN



Dryslwyn, Clunderwen

Ffôn: 01437 563589

PENYBONT

C.F.F.I.

Cipiodd Clwb Ffermwyr Ifanc Penybont Gwpan Coffa Elfyn Richards am y marciau uchaf yn Nghystadlaethau Siarad Cyhoeddus CFFI Sir Gâr 2020-21.



Cynrychiolwyr y Clwb yng nghwmni Jean Lewis, cyn-lywydd y Sir.

Bu'n brofiad gwahanol iawn i'r cystadleuwyr eleni wrth gystadlu trwy gyfrwng Zoom, oherwydd cyfyngiadau Covid. Ond gyda chynifer o gyfarfodydd bellach trwy'r cyfrwng hwnnw, mae'r profiad wedi bod yn fuddiol tu hwnt. Llongyfarchiadau i bob aelod felly, sef Gilbert, Celyn ac Olwen yn yr Adran Ddarllen, Lowri, Anwen a Cao yn yr Adran Iau, Hannah, Daniel a Lleu yn yr Adran Ganol a Marek, Fiona, Elen a Cadi yn yr Adran Hŷn.

Cafodd y cwpan ei gyflwyno i gynrychiolwyr y clwb yng Nghyfarfod Blyneddol CFFI Sir Gâr yn ddiweddar.

Hoffai'r clwb ddiolch yn ddiffuant i Mrs Jean Lewis a drosglwyddodd yr awennau i'w holynydd Mr Elfyn Davies fel Llywydd Y Sir. Ond mae Clwb Penybont yn ffodus iawn fod Jean ar stepen y drws i gynnig ei chefnogaeth a'i chynghorion doeth.

I gofio am Beca Mai Richards

Mae alaw pan ddistawo

Yn mynnu canu'n y co'.

Dic Jones



Lloriwyd yr ardal gyfan wrth glywed am farwolaeth sydyn Beca Mai Richards, a hithau ond yn 23 mlwydd oed.

Roedd hi ar fin dechrau ei swydd gyntaf fel athrawes yn Ysgol Gynradd Arberth ar ôl graddio o Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant â gradd Dosbarth Cyntaf a chymhwyster TAR. Roedd hi wedi bod yn edrych ymlaen yn eiddgar i gychwyn ar ôl treulio amser yng nghwmni'r plant cyn gwyliau'r haf.

Cychwynnodd Beca ar ei haddysg yn Ysgolion Cynradd Bro Brynach a Beca. Roedd wrth ei bodd yn canu ac roedd ganddi lais swynol. Cafodd lwyddiant wrth gystadlu mewn eisteddfodau'r Urdd gyda'r canu a cherdd dant. Mynychodd Ysgol Uwchradd y Preseli cyn symud ymlaen i Goleg Sir Gâr ac yna i'r Brifysgol. Gweithiodd yn galed i wireddu ei breuddwyd o fod yn athrawes, ac roedd y plant a oedd mor ffodus o'i chael fel cynorthwy-ydd meithrin a darpar athrawes, yn meddwl y byd ohoni. Roedd ganddi'r rhinweddau o fod yn athrawes gynradd, ac roedd yn gydwybodol ymhob peth y gwnâi. Roedd yn ferch a wnaeth fyw bywyd i'r eithaf, gan fanteisio ar bob cyfle a ddaeth i'w rhan.

Roedd wastad yn gymwynasgar a dangosodd weithredoedd o garedigrwydd tuag at eraill, a hynny'n dawel, urddasol ac heb ddisgwyl cydnabyddiaeth. Mae'r teyrngedau sydd wedi eu rhoi iddi yn dyst o hyn, ac yn dangos ei natur garedig a gofalgarg a chymaint roedd eraill yn meddwl ohoni. Gwnaeth ei chymwynas olaf drwy roi ei horganau gan sicrhau rhodd o fywyd i eraill.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf gyda theulu a ffrindiau Beca, gan ddymuno y bydd yr holl atgofion melys ohoni yn gysur ac yn nerth iddynt yn eu galar a'u hiraeth.

Yng ngeiriau Ceri Wyn:

O hyd, mae ei chalon hi yn curo'n
Llawm cariad ac asbri
Yn ein holl galonnau ni,
Yn dawel heb ddistewi.



YSGOL HAFODWENOG

Tignes i'r Tŷ

Bu cyn ddisgybl, Nerys Davies, yn seiclo o Tignes i'r tŷ yn Nhreflech i godi arian tuag at Calon Screening. Mae'r arian a godwyd yn mynd tuag at ddiwrnod sgrinio calonnau yng Nghaerfyrddin. Cychwynodd ar ei thaith dydd Mawrth, Medi 7fed ac chyrraedd Bryn Iwan ar ddydd Sadwrn Medi 18fed. Braff oedd gweld pawb wedi dod ynghyd i'w chroesawu adref.

Roedd disgyblion Hafodwenog wedi gwisgo dillad eu hunain am gyfraniad a chael ysgytlaeth amser egwyl. Cyflwynwyd £156 i Nerys pan alwodd i weld y disgyblion i siarad am ei thaith.



Wythnos Beicio

Bu disgyblion Hafodwenog yn seiclo i'r ysgol yn ystod Wythnos Beicio.

Mae Wythnos Beicio i'r Ysgol yn rhaglen wythnos gyfan o weithgareddau i annog plant a'u rhieni i deithio i'r ysgol ar feic neu sgwter. Mae beicio i'r ysgol yn ddewis iach ac egniol yn hytrach na theithio mewn car, ac mae'n fodd o wella ymddygiad a chanolbwyntio disgyblion. Mae lleihau'r traffig yn ystod adegau danfon

plant i'r ysgol hefyd yn helpu i fynd i'r afael â phroblemau parcio, tagfeydd traffig a phroblemau ansawdd aer ger ysgolion.

Diwrnod T Llew Jones

Bu'r ysgol yn dathlu yr awdur enwog, T Llew Jones, drwy gwisgo fyny. Daeth disgyblion Rhos Fach i'r ysgol fel mor lardon ac roedd dosbarth Cae Glas yn cael dewis unrhyw gymeriad o'i lyfrau.

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhaliwyd y gwasanaeth Diolchgarwch yn yr ysgol eleni. Penderfynwyd i'r casgliad fynd i Tir Dewi, elusen a ffurfiwyd mewn ymateb i angen cynyddol a difrifol i helpu ffermwyr Gorllewin Cymru mewn cyfnod anodd. Ein siaradwr gwadd oedd y Parchedig Wyn Thomas sydd yn gweithio gyda'r elusen yma. Roedd y disgyblion wedi gwisgo fyny fel ffermwyr ar y dydd. Oherwydd cyfyngiadau Covid, penderfynwyd recordio'r gwasanaeth fel bod y rhieni hefyd yn gallu gwyllo'r disgyblion wrth eu gwaith.

YSGOL BRO BRYNACH

Gemau buarth



Plant y Cyfnod Sylfaen

Ar ddydd Mercher y 6ed o Hydref daeth Ceris o Fenter Iaith i wneud gêmiau buarth gyda'r Cyfnod Sylfaen. Mwynheuodd y plant ymgymryd mewn amrywiaeth o weithgareddau hwylus.

Dathlwyd diwrnod Iechyd Meddwl ar yr 8fed o Hydref. Gwisgodd y plant ddillad melyn i godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd iechyd meddwl a chodi arian i MIND Cymru.

Yn ystod yr hanner tymor yma mae dosbarthiadau Gronw a Cynin wedi bod yn brysur yn dysgu am yr Iddewon, Codio, Ailgylchu ac am ddiolchgarwch. Yn dilyn wythnos ailgylchu mae'r disgyblion wedi bod yn casglu sbwriel o gwmpas ein hardal leol ac yn dysgu am gyfradd ddadelfennu deunyddiau gwahanol.

Yn ystod yr hanner tymor mae dosbarthiadau Sien a Lliwe wedi mwynhau casglu mwyar yn yr ardal leol a'u defnyddio i bwrpasau gwahanol megis gweithio jam a peintio. Ar ddiwedd yr hanner tymor byddant yn mwynhau parti pan fyddant yn cael gwisgo porffor, coginio tarten mwyar, gwneud hufen ia mwyar a blasu'r jam.

Bag2School



Dau ddisgybl o flwyddyn
6 gyda'r fan Bag2School

Diolch i bawb am eich cyfraniadau tuag at 'Bags to School'. Casglwyd £99

YSGOL BANCYFELIN

Croeso

Croeso i Lauren Swinley sydd wedi dechrau gweithio yn yr ysgol ym mis Medi fel cogyddes a Stefano Leonardi sydd yn gweithio fel gofalwr a glanhawr. Gobeithio y byddwch chi'ch dau yn hapus gyda ni.

Stondin elusen



Cynhaliwyd stondin gacennau ar gyfer elusen gancr yn yr ysgol ar ddydd Gwener Medi 24ain. Gwnaed elw o £378. Diolch i bawb am eu cefnogaeth

Gwasanaeth tân

Braf oedd croesawu Elinor Goldsmith o'r gwasanaeth tân i'r ysgol i'n dysgu am ddiogelwch tân.

Gemau Buarth



Bu Ceris Thomas o Fenter Gorllewin Sir Gâr yn cynnal hyfforddiant gemau buarth gyda ni ac mae pawb wrth eu bodd nawr yn ymarfer y gemau yma.

YSGOL BECA

Diolch i Miss Evans

Ar ddiwedd dymor yr Haf, ffarweliom ag aelod ffyddlon o staff yr ysgol. Buodd Miss Carys Evans gyda ni am saith mlynedd a gweithiodd yn ddiwyd fel athrawes yng Nghyfnod Allweddol Dau. Rydym yn gweld eisiau ei chymeriad bywiog yma yn Ysgol Beca. Pob lwc ar dy antur newydd yn Ysgol Griffith Jones!

Croesawu Miss John

Ym mis Medi croesawom Miss John fel athrawes newydd i ymuno a'r criw. Mae Miss John yn addysgu blynyddoedd 2 a 3 ac mae wedi ymgartrefi yn ei swydd newydd yn barod. Croeso Miss John!

'Bags 2 School'

Mae'r gymuned a'r ysgol wedi bod yn brysyr yn casglu hen ddillad ar gyfer y rhaglen 'Bags 2 School'. Bydd y dillad a gasglwyd yn cael eu dosbarthu i wledydd yn Ewrop. Diolch i bawb am eu cyfraniadau hael, codwyd £93 i'r ysgol.

Diwrnod Iechyd Meddwl

Ar yr 8fed o Hydref gwisgodd y plant mewn dillad melyn er mwyn codi ymwybyddiaeth am iechyd meddwl plant. Cafwyd gweithgareddau hwyl yn ystod y dydd ac roedd yn gyfle i drafod teimladau a doniau disgyblion.

Panelli comig yr ysgol

Mae'r disgyblion wedi bod yn gweithio'n galed gyda 'CISP Multimedia' i greu paneli comig i'w rhoi ar dir yr ysgol. Casglwyd ffeithiau a darluniwyd lluniau i'w rhoi ar y paneli. Ceir pedwar panel i gyd sef, Y Cardi Bach, Merched Beca, Enwogion yr ardal a Hanes yr ysgol. Bydd y paneli'n cael eu gosod yn fuan iawn, dewch i'w gweld er mwyn darganfod mwy am ein hysgol a'r ardal leol!

YSGOL GRIFFITH JONES**Wythnos Feicio**

Bu wythnos olaf mis Medi yn 'Wythnos Feicio' ac fel rhan o waith y Pwyllgor Ysgolion Iach fe anogwyd y disgyblion i feicio i'r Ysgol am yr wythnos. Bu'r ymateb yn wych ac er gwaetha'r gwynt a'r glaw, llwyddodd Blwyddyn 5 a 6 Myrddin i gipio'r wobr am y nifer fwyaf o feicwyr yn ystod yr wythnos. Da iawn chi!

Llysgenhadon Efydd

Etholwyd ein Llysgenhadon Efydd ar ddechrau'r tymor. Llongyfarchiadau i Cai Morris, Mia McDowell, Evie Murray Evans a Theo Polletta.

Mae'r pedwar eisoes wedi derbyn bore o hyfforddiant ynghyd â Llysgenhadon ysgolion y Clwstwr. Byddant yn dechrau ar y gwaith o drefnu sesiynau cadw'n heini i'r plant iau yn ystod yr awr ginio cyn gynted. Pob lwc iddynt!

Garddwyr Prysor

Mae Pwyllgor yr Ardd wedi dechrau ar eu gwaith o daculso a pharatoi'r ardd. Diolch yn fawr i siop y Co-op am eu rhodd i'r Ysgol o offer garddio a llu o adnoddau garddio. Un o dasgau cyntaf y Pwyllgor oedd plannu rhosyn yng ngardd yr Ysgol er cof am ein gofalwr Ben a fu farw flwyddyn yn ôl i'r mis yma.

Siarter Iaith

Etholwyd ein Llysgenhadon Iaith sef Llyr Davies, Mia Gleeson, Grace Thomas, Lily-May Drewitt a Steffan Williams. Mae'n nhw eisoes wedi dechrau ar y gwaith o gasglu tocynnau iaith o bob dosbarth yn wythnosol i annog ein dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg bob amser o gwm-pas yr Ysgol. Y dasg nesaf bydd trefnu gweithgareddau i ddathlu 'Diwrnod Shwmae!' ar Hydref y 14eg.

'Y cysur mewn adegau tywyll'



Wrth draddodi Darlith Flynyddol Rithiol gyntaf Cymdeithas Waldo ar Fedi'r 24 aeth y darlithydd gwadd ati'n ddyfeisgar i ddadlau bod barddoniaeth Waldo yn fodd o gynnal iechyd a lles yr unigolyn. A hynny'n amserol o ystyried efaith yr haint Covid.

Pwysleisiodd Ceri Wyn Jones bod darllen neu wrando ar farddoniaeth yn medru bod cystal â dim i ddelio â helbulon personol. Does dim rhaid dibynnu'n unig ar dabledi neu foddion. Cyfeiriodd at ribidirê o feirdd sy'n ceisio canfod a chyfleu'r cyflwr hwnnw o 'lonyddwch mawr'.

Goresgyn

A doedd hynny ddim yn dod yn hawdd i Waldo fel y tystia yn ei gerdd 'Cwmwl Haf' meddai. Roedd e'n ym-

dopi â'i drafferthion ei hun. Ond yn eu goresgyn.

Soniodd y prifardd am y fam honno oedd yn sibrwd cerdd George Herbert, 'The Flower' yng nghlust ei merch a oedd yn derbyn triniaeth mewn ysbyty meddwl. Roedd y geiriau'n pwysleisio'r posibilrwydd o adnewyddiad ac ail-eni.

Cyfeiriodd hefyd at ei gymar creadigol o Aberteifi, Aneurin Meirion Jones, a ddywedodd bod cyfrol Waldo, 'Dail Pren' yn "fythol wyrdd ac yn gysur mewn adegau tywyll".

Y Beirdd

Yn ystod ei ddarlith cyfeiriodd y bardd a'r Meuryn o Aberteifi at feirdd megis Seamus Heaney, R. S. Thomas, John Donne, William Wordsworth, T. Gwynn Jones, W. B. Yeats, Emily Dickinson, W. H. Auden, Robert Frost, Simwnt Fychan, Iolo Morgannwg, Dic Jones a Kendrick Lamar. Ac roedd Waldo ar yr un gwastad â nhw.

A hyd yn oed wrth gydnabod bod Waldo hefyd yn medru bod yn astrus wrth geisio mynegi ei hun, pwysleisiodd Ceri Wyn fod yna nerth a chysur mewn llawer o'r llinellau unigol.

"Mae hyd yn oed y darnau nad ydyn nhw fel haul ar bost yn gallu'n cyffroi a'n gwefreiddio ni. Oherwydd mae Waldo yn un o'r beirdd hynny sy'n gallu bathu gwiri-oneddau, hyd yn oed os nad yw'r darllenydd wastad yn hollol siŵr beth yw eu hystyr, na chwaith yn gwybod ydyn nhw'n wir ai peidio. Dwi ddim yn gwybod cweit beth yw ystyr y llinell 'Daw'r Brenin Alltud a'r brwyn yn hollti', ond diawch mae'n codi gwallt fy mhen bob tro dwi'n ei chlywed hi."

Amanda

Yn yr un goleuni gosododd y bardd ifanc Americanaidd 23 oed, Amanda Gorman, wrth ddyfynnu o'i cherdd 'The Hill We Climb', a draddodwyd ar achlysur urddo Joe Biden yn Arlywydd yr Unol Daleithiau, a thrwy hynny ffarwelio â Donald Trump.

For there is always light,
if only we're brave enough to see it.
If only we're brave enough to be it.

Hynny yn gopsi ar y ddadl bod barddoniaeth yn cyfrannu at iechyd a lles yr unigolyn. Bydd fersiwn llawnach o'r ddarlith i'w gweld maes o law ar wefan Cymdeithas Waldo ac i'w chlywed yno.


T. D. LADD
a'i GWMNI
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217


Aeres Williams
Hyfforddwraig Gyrru
Glandy Cross, Clunderwen
Ffôn: 01994 419711
Sumudol: 07969 501551
aeresannadi@hotmail.co.uk

D. E. PHILLIPS
a'i Feibion
TANYBRYN, GLANDWR
Trydanwyr
Siop Radio a Theledu
CRYMYCH
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589



Newyddion Menter Gorllewin Sir Gâr

O dan yr amgylchiadau presennol, mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn gweithio i ddarparu gweithgareddau a sesiynau i chi allu parhau i gymdeithasu a byw yn Gymraeg yn ddigidol ac wyneb yn wyneb yn unol â chyfarwyddiadau'r llywodraeth parthed cyfyngiadau. Mae'r Fenter yn falch iawn o allu trefnu digwyddiadau yn ddiogel dros yr haf eleni ac yn gobeithio eich bod wedi mwynhau cymaint â ni!

Taith Fygi

Rydym yn ail-gychwyn ar ein sesiynau teithiau bygi poblogaidd. Byddwn yn Hendygywyn-ar-Daf ar ddydd Mercher y 3ydd a 17eg o Dachwedd a 1af o Rhagfyr. Mae'r teithiau yn ymgynnull am 10:15yb ac yn cychwyn am 10:30yb ym mhob ardal. Ymunwch â ni am gyfle i sgwrsio, gwneud ychydig o ymarfer corff ac am wâc hamddenol. Mae'n angenrheidiol i bawb gofrestru o flaen llaw. Cysylltwch gyda gwawr@mgsg.cymru i gofrestru.

Sesiynau stori

Rydym yn cychwyn sesiynau stori, sef yng Nghaerfyrddin ar ddydd Llun yng Nghanolfan Chwarae Sgiliau ar yr 8fed a 22ain o Dachwedd a 6ed o Rhagfyr. Ac yn San Clêr ar ddydd Mercher yn Y Gât ar y 10fed a 24ain o Dachwedd a'r 8fed o Rhagfyr. Bydd y sesiynau yn cychwyn am 10:30yb ym mhob lleoliad. Ymunwch â ni mewn sesiwn stori ac ychydig o ganu. Mae'n angenrheidiol i bawb gofrestru o flaen llaw. Cysylltwch gyda gwawr@mgsg.cymru i gofrestru.

Clybiau Darllen

Mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn trefnu dau glwb darllen sy'n cwrdd unwaith y mis ar Zoom. Mae clwb darllen i oedolion yn cwrdd bob ail nos Fawrth y mis am 7yh a chlwb darllen i ddysgwyr yn cwrdd ar nos Fawrth olaf pob mis am 7yh. Am fwy o wybodaeth neu i gofrestru cysylltwch gyda ceris@mgsg.cymru

Gemau Buarth

Mae'r swyddogion datblygu, Ceris, Gwyneth ac Alma wedi bod yn mynd o amgylch ysgolion yr ardal yn cynnig sesiynau gemau buarth, mae'r dair wedi bod yn ym-

weld gyda'u hysgolion yn cynnwys Ysgol Llanpumsaint, Cynwyl Elfed, Brynsaron, Bro Brynach, Llansteffan, Bancfelin, Hafodwenog, Y Dderwen, Llangynnwr a Peniel. Mae'r sesiynau yma yn gyfle i chwarae gemau buarth traddodiadol ac yn gyfle i ddefnyddio geirfa Cymraeg tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Edrychwn ymlaen at ymweld ag ysgolion arall yr ardal dros yr wythnosau nesaf.

Arweinwyr y Dyfodol

Ym mis Medi, mae Menter Gorllewin Sir Gâr wedi cyflwyno cwrs 'Arweinwyr y Dyfodol' ac mae criw ifanc o wirfoddolwyr wedi dod at eu gilydd ddilyn y cwrs. Mae'r cwrs yn cynnwys hyfforddiant a fydd yn arwain at gymhwyster Lefel 2. Bydd y criw brwd yma'n cael cyfle i wirfoddoli yn eu cymunedau gan ddatblygu sgiliau arwain ynghyd â dysgu am farchnata a'r gymuned ddwyieithog. Bydd yr holl brofiadau yma'n ychwanegiad gwerthfawr i'w CV ac i'w datblygiad a'u hyder. Mae'r criw wedi cwrdd yn rhithiol ac wyneb yn wyneb er mwyn dechrau ar y sesiynau hyfforddi. Diolch i Catrin Llwyd ac Adran Plant a Phobl Ifanc Cyngor Sir Gâr am eu rhan yn y prosiect hwn ac i Gwirfoddoli Cymru am ei ariannu.

Cyfryngau Cymdeithasol

Gyda'r cyfyngiadau yn newid o hyd, mae gwaith y Fenter yn newid gydag amryw o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn cael eu cynnal ar-lein. Am y diweddaraf, ewch i'n cyfryngau cymdeithasol:

Facebook - Menter Gorllewin Sir Gar

Trydar - @MenterGSG

Instagram - @MenterGSG

E-bost - ceris@mgsg.cymru

neu am fwy o wybodaeth ar sut i gyrraedd y platfformau yma cysylltwch gyda Ceris ar y ffôn: 07939 962042.

Y Mentrau laith yn chwilio am Siôn Corn Cymraeg!

Mae'r Mentrau laith ar draws Cymru yn galw allan i gael gweld ble mae'r holl lefydd y bydd Siôn Corn yn siarad Cymraeg y gaeaf hwn.

Os bydd Siôn Corn yn ymweld â chanolfan arddio, neu add bentref, ffair Nadolig neu yn rhithiol dros gyfrifiadur, cysylltwch â'r Fenter laith leol gyda'r wybodaeth briodol.

Am ragor o fanylion cysylltwch gyda ymholiad@mgsg.cymru / 01239 712934

OWEN PHILLIPS
Llanddewi EfelFre
SAER COED
Ffôn Symudol:
07919 524569

G & S Llewellyn a'i Mab

Contractwyr Amaethyddol
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clynderwen. SA66 7TX
Ffôn: 01437 563320

Olew Oil
Trefigin
est. 1985
Y Gwasanaeth sy'n Gwresogi
TANWYDD Tŷ
DERV
DISEL FFERM
LIWB OLEW
HEATING OIL
DERV
FARM DIESEL
LUBRICANTS
Warm to our Service
Cwmni annibynnol,
teuluol, lleol, Cymraeg
881630 www.trefigin.cymru 881282



Bysiau Cwm Taf

Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol



DYDDIAD	TEITHIAU 2022	PRIS	DIWRNODAU
Gwener 14 -17 Ionawr	Penwythnos Aduniad yn WESTON SUPER MARE	£210	4 Diwrnod
Gwener 21 -24 Ionawr	Penwythnos yng Ngwesty Belgrave Sands TORQUAY	£210	4 Diwrnod
Gwener 28 -30 Ionawr	PENWYTHNOS YN LLUNDAIN	£199	3 Diwrnod
Iau 3 - 6 Chwefror	Rygbi y Chwe Gwlad IWERDDON v CYMRU yn DULYN	£349	4 Diwrnod
Gwen 11 - 14 Chwefror	Penwythnos yn GWESTY QUEENS, PAIGNTON	£240	4 Diwrnod
Llun 21 - 24 Chwefror	DISNEYLAND PARIS yn ystod Gwyliau'r Ysgol	???	4 Diwrnod
Llun 28 Chwef - 4 Maw	Amser Hamddenol yn STREET	£275	5 Diwrnod
Gwener 4 -7 Mawrth	DARTMOOR ac ARFORDIR DE DEVON	£275	4 Diwrnod
Sadwrn 12 -15 Mawrth	GOGONEDDAU ARFORDIR CERNYW - St AGNES	£270	4 Diwrnod
Sul 13 - 14 Mawrth	NOSON YN GWESTY WALDORF, LLUNDAIN	£185	2 Ddiwrnod
Gwener 18 -20 Mawrth	CLIVE a'I FFRINDIAU yn diddanu yn y CELTIC CAERNARFON	£215	3 Diwrnod
Gwener 25 -28 Mawrth	PENWYTHNOS CABARET YN TORQUAY	£250	4 Diwrnod
Llun 28 Maw - 1 Ebrill	Prydferthwch SOUTH DOWNS yn BOGNOR REGIS	£335	5 Diwrnod
Iau 31 Maw - 4 Ebrill	MÔRDAITH GWATWAROL LLANDUDNO	£425	5 Diwrnod
Iau 7 - 11 Ebrill	CAEAU BLODAU'R ISELDIRIEDD	£495	5 Diwrnod
Gwener 8 - 11 Ebrill	PENWYTHNOS I Ymlacio yn DULYN	£345	4 Diwrnod
Gwener 22 - 25 Ebrill	PENWYTHNOS YN GWESTY BELGRAVE SANDS TORQUAY	£299	4 Diwrnod
Llun 25 -29 Ebrill	RHEILFFYRDD RHAMANTUS GOGLEDD CYMRU	£450	5 Diwrnod
Llun 2 - 6 Mai	Mordaith llong ar Gamlas LERPWL a MAENCEINION	£465	5 Diwrnod
Gwener 6 - 8 Mai	CRWYDRO TAFARNDAI WETHERSPOONS	£195	3 Ddiwrnod
Gwener 13 - 16 Mai	PENWYTHNOS Braf YN GWESTY PALACE PAIGNTON	£300	4 Diwrnod
Sadwrn 14 - 20 Mai	CRWYDRO O AMGYLCH YNYS HARDD JERSEY	£660	7 Diwrnod
Mawrth 17 - 19 Mai	MEN & MOTORS 1V	£265	3 Diwrnod
Sul 22 - 25 Mai	PUDDING CLUB (Noson blasu pwddinau) & COTSWOLDS	£345	4 Diwrnod
Iau 26 - 28 Mai	SIOE FLODAU CHELSEA	£299	3 Diwrnod
Llun 30 Mai - 2 Mehef	LLANDUDNO - Croeso Twymgalon Gwesty'r Tynedale	£370	4 Diwrnod
Sul 5 - 10 Mehefin	IWERDDON - KERRY	£600	6 Diwrnod
Llun 6 - 9 Mehefin	DARGANFOD GERDDI DORSET	£360	4 Diwrnod
Llun 13 - 17 Mehefin	Ales and Haunted Tales of LANCASHIRE	£435	5 Diwrnod
Mawrth 21-28 Mehefin	YNYS Hudolus ORKNEY a Chastell MEY CAITHNESS yr ALBAN	£900	8 Diwrnod
Sul 26 Mehef - 2 Gorff	Ymweliad a RHEILFFYRDD "BLUEBELL" EASTBOURNE	£535	7 Diwrnod
Iau 7 - 9 Gorffennaf	GOODWOOD FESTIVAL OF SPEED	£320	3 Diwrnod
Iau 14 - 16 Gorff	The Royal International Air Tattoo	£290	3 Diwrnod
Gwener 15 - 20 Gorff	YNYS WYTH (ISLE OF WIGHT)	£415	5 Diwrnod
Sul 24 -25 Gorff	LEGOLAND (WINDSOR)	i/g	2 Diwrnod
Llun 25 - 29 Gorff	HARROGATE a'r YORKSHIRE DALES	£450	5 Diwrnod
Sul 31 Gorff - 4 Awst	Charming Cheshire & The Wirral Peninsula	£435	5 Ddiwrnod

Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau
Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni
01994 240908
www.tafvalleycoaches.co.uk



**ARBENNIGWR
LAND ROVER
ANNIBYNNOL**



MOT



♦CEIR ♦BEICIAU MODUR ♦FANIAU ♦4x4

Offer Diagnostig Diweddaraf





ARBENNIGWYR LAND ROVER YN SAN CLÊR, SIR GÂR
Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.

Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

♦RHANNAU SBAR ♦GWASANAETH ♦TEIARS
♦BATRIS ♦WELDIO ♦TRACIO PEDAIR OLWYN
♦TYMHERU AER

Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313
Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP



Rhys Jones

Glanhawr Simnai

Glanhau Simneiau • Cynnal a Chadw
Arolygiad Teledu Cylch Cyfyng
Tynnu nythod adar • Gwiriadau diogelwch
Gosod larymau Carbon Monocsid
Gwasanaethu/atgyweirio stôfiau a lleoedd tân
Yswiriant a chymhwysiadau llawn

**Gwasanaethu Sir Gaerfyrddin • Ceredigion
Sir Benfro • Abertawe**

☎ 07554 647544
www.rhysjoneschimneysweeping.co.uk



o San Clêr

Pysgod a Sglodion traddodiadol rhagorol

**Pysgod • Sglodion • Risols
Selsig • Cyw lâr • Dioddydd**

**Ar agor Llun i Sadwrn
11.30 - 21.30
Croeso i chi archebu
ar y ffôn
01994 231482
Heol yr Orsaf,
San Clêr**





DERI PAGE

CIGYDD TEULUOL FAMILY BUTCHERS

01994 230 062



***Cig a gwasanaeth
o'r ansawdd gorau
bob amser***

**Heol y Pentre
San Clêr. SA33 4AA**



Pos y Pwmpenni



CYSTADLEUAETH Cyfle i un darlennydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro

Mae heno'n nos Glangaea',
a bwci ar bob camfa,
a Jac-y-lantern ar yr hewl -
rhaid mynd neu caf fy nala.



n e M t l l e



g e c h S r



w S s



a i l s D f

Mae Owen ac Olwen wedi
bod yn brysur yn cerfio
pwmpenni Calan Gaeaf ac
wedi dewis enw unigryw
ar gyfer pob un.
Fedrwch chi ddyfalu
eu henwau?



a a i C r d



e a T l w



y i g D o n



n a l l e w

Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 8/11/21

Ateb Cystadleuaeth Mis Medi: (1) gwenynen, (2) malwoden, (3) mursen, (4) gwllithen, (5) pryf copyn,
(6) iâr fach yr haf, (7) buwch goch gota, (8) morgrugyn

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.
Cyhoeddir y gyfres gan Gomer. www.wenfro.cymru

© y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2021



Bydd enw enillydd y gystadleuaeth
yn cael ei gyhoeddi yn y rhifyn
nesaf.

PENBLWYDD HAPUS



Penblwydd hapus iawn i Llew Murray, Maesyffynnon, a ddathlodd ei 3ydd penblwydd ar 13eg o Fedi, hefyd ei gyfnither Ela James o Eglwys Newydd Caerdydd a oedd yn flwydd oed ar 22ain o Fedi. Penblwydd hapus iawn i'r ddau wrth y teulu i gyd Xx



CYFLE I ENNILL £100!

Annwyl ddarlennwyr,

Rydyn ni'n ysgrifennu ynglŷn â chystadleuaeth ffotograffiaeth *Cara* - cylchgrawn Cymraeg i ferched o bob oed, gan ferched ac am ferched. Mae *Cara*'n cael ei gyhoeddi 3 gwaith y flwyddyn ac ar gael yn eich siop lyfrau leol. Bydd y rhifyn nesaf yn barod ganol Tachwedd.

Yn ogystal â'r 72 tudalen o erthyglau lliwgar am iechyd, ffasiwn, bwyd a diod, teithio, materion cyfoes a llawer mwy, rydyn ni'n cynnal cystadleuaeth ffotograffiaeth i fenywod ar y thema Golau/Goleuni. Bydd mwy o fanylion yn *Cara*'r gaeaf. Dyma gyfle i ennill gwobr gwerth £100 gan gwmni Gola, cael y llun wedi ei fframio a hefyd ei gynnwys yn *Cara*.

Ewch amdani dros gyfnod y Nadolig a'r Calan!

Beth am brynu anrheg Nadolig gwahanol eleni? Gallwch gael tanyysgrifiad blwyddyn i ffrind, mam, merch, modryb, wyres, chwaer, nain... am £12 yn unig. Mae'r manylion ar ein gwefan www.cara.cymru, ac ar @cylchgrawncara ar Facebook, Instagram a Twitter.

Diolch yn fawr,

Meinir ac Efa (Tîm Cara)



Login
Hendygywn
Sir Gaerfyrddin
SA34 0UX
Ffôn: 01437 563277
www.joneslogin.co.uk



Nifer y dyddiau

Rhagfyr

Sad 4	Nadolig Windsor
Sad 11	Nadolig Longleat
Gwe 17 }	<i>Stereophonics a Tom Jones</i>
Sad 18 }	<i>Stadiwn y Principality, Caerdydd</i>
Sad 18	<i>Siopa Nadolig Trago Mills, Merthyr</i>
Iau 23	Nadolig yn Bournemouth

Ionawr 2022

Gwe 21	Riviera Lloegr - Cynheswr y Gaeaf, Gwesty Palace	4
Sad 22	<i>Sioe Gerdd</i>	1
	<i>The Lion, The Witch & The Wardrobe, CMC</i>	

Chwefror

Gwe 18	Riviera Lloegr - Cynheswr y Gaeaf, Gwesty Palace	4
--------	---	---

Ebrill

Llun 4	Efrog - 'A Ramble in the Shambles'	5
Sad 9	<i>Sioe Gerdd - We Will Rock You, CMC</i>	1
Maw 26	<i>Lord of the Dance 25, Theatre Newydd, Caerdydd</i>	1
Sad 30	<i>Strictly Come Dancing - Y Dawnsyr Proffesiynol</i>	1

Mai

Sad 7	<i>Sioe Gerdd - Six The Musical, CMC</i>	1
Sad 7	Saffari Siocled	2
Llun 9	Iwerddon - Sligo a'r 'Wild Atlantic Way'	6

...Mai

2 Llun 16	Lock, Stock a'r BBC	5
2 Sad 21	<i>Sioe Gerdd - School of Rock, CMC</i>	1
1 Llun 23	Gwesty Warner - Neuadd Alvaston	5
Iau 26		
1 Gwe 27 }	<i>Ed Sheeran, Stadiwm Principality</i>	1
5 Sad 28 }	<i>Sioe Gerdd - Singin' in the Rain, CMC</i>	1
Sad 28		

Mehefin

Gwe 10	Caerfaddon a Briste	4
Mer 15	Diwrnod y Merched - Royal Ascot	3
Sad 18	<i>Gwibdaith Sir Benfro</i>	1
Sad 25	Yr Alban - Dumfries a Galloway	7

Gorffennaf

Sad 9	<i>Sioe Gerdd - Y Lion King, CMC</i>	1
Llun 11	'From a Lofty Height to the Isle of Wight'	5
1 Maw 19 }	<i>Sioe Frenhinol Cymru</i>	1
Mer 20 }		
Iau 21	Llandudno	5

Awst

1 Llun 1 }		
2 Mer 3 }	<i>Eisteddfod Genedlaethol</i>	1
6 Gwe 5 }		

Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!